# ECO'r Wyddfa

Rhif: 441
Mawrth 2016
Pris: 70c




# Buddsoddwch yn eich cymuned leol

## *Cadwn ein cyfoeth – nid ei golli*

**Dyna yw dyhead cwmni cymunedol YnNi Padarn Peris (YPP). Drwy berchnogi elfen o'n hetifeddiaeth naturiol, sef glaw o'r mynydd, mae yna gyfle i ddyffrynnoedd y llechi elwa.**

Creu cynlluniau hydros a gwerthu'r trydan i'r grid cenedlaethol yw'r bwriad, a lansiwyd y cynllun cyntaf – ar afon Goch, uwch pentref Llanberis – yn y Mynydd Gwefru ar Sadwrn olaf Chwefror. Mae sawl cynllun arall i ddilyn.

Eisoes mae'r holl ganiatâd angenrheidiol a'r hawl cynllunio i greu hydro wedi ei dderbyn.

Cwmni er Budd Cymdeithas ydi YnNi Padarn Peris Cyf. lle bo cyn gymaint a phosibl o'r elw yn cael ei rannu'n lleol. Bydd elusen yn cael ei sefydlu, ac yn derbyn yr elw a'i rannu i'n cymunedau.

Ar hyn o bryd, yr ardal ydi Nant Peris, Llanberis, Brynrefail, Cwm y Glo, Llanrug, Penisa'r-waun, Deiniolen a Dinorwig a'r mân sefydliadau cyfagos.

Ond rhaid codi £250,000 i weithio'r cynllun. Mae YPP yn cynnig cyfranddaliadau yn y cynllun, gan gychwyn ar £250 ac yn codi at £20,000. Bydd eich buddsoddiad yn dod a 5% o elw ar ôl y ddwy flynedd gyntaf. Mae'r elw yn hollol ddibynnol ar y glaw; a dyna reswm digonol am groesawu tywydd gwlyb! Gall unrhyw un o ble bynnag yn y byd fuddsoddi.

Bydd cored wrth Bont Maenllwyd yn ddarn bach o goncrit ar draws yr afon a bocs bach dur ar ei ben i dderbyn dŵr. Bydd y dŵr yn llifo i lawr peipen blastig, fydd wedi ei chladdu, i lawr i gwt tyrbin maint sied gardd ger yr hostel ieuenctid. Yna, drwy'r tyrbin ac yn ôl i'r afon.

Mae holl fanylion y cynllun ar y wefan www.ynnipadarnperis.org gan gynnwys y dogfennau perthnasol. Yn bwysicach fyth, fe gewch brynu cyfranddaliadau drwy'r wefan.



# ECO'r Wyddfa


## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Ebrill | Mawrth 20 | Ebrill 1 | Cwm y Glo |
| Mai | Ebrill 17 | Ebrill 29 | Deiniolen |


**RHIF 441**
**Mawrth2016**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i Dafydd Whiteside Thomas Bron y Nant, Llanrug 01286 673515 ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)



gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673


## LLYTHYRAU

### Cyfeiriadur Y Lolfa

Annwyl Olygydd
Cyfle i Hyrwyddo Eich Busnes
Os ydych am hyrwyddo busnes neu gymdeithas newydd cofiwch fod modd gwneud hynny am ddim drwy ychwanegu eich manylion i Gyfeiriadur Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur yn ymddangos yn holl ddyddiaduron Y Lolfa ac ar wefan Y Lolfa. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dilyn y ddolen yma www.ylolfa.com/cyfeiriadur a llenwi ffurflen ar-lein syml neu fy ffonio ar 01970 832304 neu ddanfon e-bost i sonia@ylolfa.com.
Mae croeso i chi hefyd wirio gwybodaeth am gwmni sydd yn y cyfeiriadur yn barod.

Pob hwyl
Sonia Hughes

### Cyfranddaliadau Ynni Padarn Peris

Annwyl Ddarllenwyr yr Eco
Mae criw bach wedi creu cwmni er budd Cymdeithas. Cafwyd caniatâd cynllunio ar afon Goch yn Llanberis, ond mae'r cwmni yn edrych ar amryw afon arall. I wireddu'r cynllun bydd angen tua £250,000 mewn buddsoddiadau gan y cyhoedd.
Cafodd y cynnig am gyfranddaliadau ei lansio yn y Mynydd Gwefru yn Llanberis ar 27ain o Chwefror, a bydd cyfle i brynu hyd at 30ain o Ebrill.
Isafswm buddsoddi ydi £250 a'r uchafswm ydi £20,000. Fe fydd yna 3% ar y buddsoddiad yn y flwyddyn gyntaf, 4% yn yr ail flwyddyn ac yna 5% wedi hynny.
Bydd yr afon yma'n creu elw a aiff yn uniongyrchol i elusen lleol a fydd yn ei roi allan i'n cymuned, sef pentrefi'r dyffryn i lawr at Llanrug gan gynnwys Deiniolen a Dinorwig. Rhyw £10,000 y flwyddyn gawn ni o'r cynllun yma i'w rannu gan obeithio cael llawer mwy o'r cynlluniau sydd i ddod.
Mae'r dogfennau yn cael eu dilysu gan wahanol gyrff, ond cyn gynted ag y byddant wedi eu diweddaru byddant ar ein gwefan, sef
www.ynnipadarnperis.org
Hwyl,
Gwyndaf Hughes

### Ysgrifennu i Bapur Bro

Annwyl Olygydd
Ar Ebrill yr 2il byddwn yn cynnal cwrs dan ofal y newyddiadurwraig Karen Owen yng nghanolfan Tŷ Newydd, Llanystumdwy, i fireinio'r grefft o ysgrifennu i bapurau bro. Os oes rhai o'ch darllenwyr yn awyddus i dderbyn arweiniad ar sut i gyfrannu erthygl i'r papur lleol, ymunwch â ni da chi. Byddwn hefyd yn dangos sut i rannu gwybodaeth lleol ar y we, i gyrraedd mwy fyth o gynulleidfa. Pris y cwrs yw £32, a gofynnwn i chi gofrestru eich lle o flaen llaw drwy gysylltu â Ty Newydd ar 01766 522811 neu tynewydd@llenyddiaethcymru.org.
Cofion cynnes
Leusa Llewelyn

### CYLCH LLENYDDOL CAERNARFON A GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai ar nos Fawrth, 15ed Mawrth, yn Adeilad yr Institiwt, Caernarfon am 7.30 o'r gloch. Y siaradwraig wadd fydd y Prifardd Mererid Hopwood a'i thestun fydd 'Nes Draw', sef teitl ei chyfrol o gerddi a ymddangosodd yn ddiweddar. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb. Noddir y digwyddiad gan Lenyddiaeth Cymru.

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£50 er cof am Menai Roberts, Ceris, Lôn Groes, Llanrug.

£20: Er cof am Elizabeth Eurfon Parry (Betty Pensarn) gan Menna a'r teulu. Er cof am Thomas John Roberts (Twm John) a Raymond John Roberts, 83 Maes Padarn, Llanberis

£10: Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, Cwm y Glo; Dr W. Munro, 8 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

£5: Er cof am Stella Wynne Owen, gynt o Llanberis; Siôn a Lowri, Preswylfa, Waunfawr.


Annwyl Gyfeillion,

### Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Fel y gŵyr rhai o drigolion ardal Dinorwig, mae y Cynghorydd Cymunedol Philip Jones, wedi bod yn cynrychioli ardal Dinorwig ar y Cyngor Cymuned ers rhai blynyddoedd bellach, ac wedi gwneud hynny yn drylwyr iawn.
Oherwydd nad yw Philip wedi bod yn dda ei iechyd yn ddiweddar, mae wedi ymddiswyddo o'i sedd yn Gynghorydd Cymunedol.
Tybed oes rhywun â diddordeb o wasanaethu fel cynghorydd Cymunedol dros ardal Dinorwig ar y Cyngor Cymuned.
Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb neu angen mwy o wybodaeth gysylltu â'r clerc.

Diolch,
Eleri Bean
Clerc a Swyddog Ariannol
Cyngor Cymuned Llanddeiniolen, Bwthyn Isaf, Deiniolen
LL55 3LS. 01286 871757
eleribean@btinternet.com

# Rhodd i'r Tim Achub Mynydd



*Geraint Thomas, Elidir Owen, Edwin Roberts, John Grisdale, Paul Sivyer, Margaret Salisbury*

Ym mis Gorffennaf 2014 roedd Margaret Salisbury, un o ffotograffwyr mwyaf adnabyddus Gogledd Cymru i fyny yn Chwarel Dinorwig yn tynnu lluniau. Wrth iddi grwydro ar hyd y ponciau fe welodd hofrennydd melyn yr RAF yn pasio heibio i fyny'r dyffryn. Pan glywodd hi'r hofrennydd yn dod yn ôl, ac wrth iddo basio gyferbyn a hi, fe gipiodd hi lun ohono.

Ar y pryd, doedd hi ddim yn sylweddoli arwyddocâd y llun roedd hi newydd dynnu. Mae'n debyg mai honno oedd yr hofrennydd a oedd newydd fod yn rhan o'r ymdrech i achub John Ellis Roberts wedi iddo ddisgyn wrth ddringo ar Ddinas Gromlech.

Ychydig ar ôl hynny roedd Margaret Salisbury yn beirniadu cystadleuaeth yng Nghlwb Camera Caernarfon. Cyn cychwyn y noson, fe adroddodd stori'r hofrennydd i'r aelodau a datgan ei bod hi am roi ei ffi treuliau am wasanaeth beirniadu fel rhodd i Dîm Achub Mynydd Llanberis. Penderfynodd yr aelodau hefyd wneud casgliad, a rhwng pawb, casglwyd £60 at yr achos.

Ar ddechrau mis Chwefror eleni, daeth rhai o Dîm Achub Mynydd Llanberis i gyfarfod o'r Clwb Camera yng Nghaernarfon i dderbyn yr arian oddi wrth Margaret Salisbury a Geraint Thomas, cadeirydd y clwb. Diolchwyd iddynt am eu gwaith diflino ar y mynydd.

Derbyniwyd y rhodd gan John Grisdale, cadeirydd Tîm Achub Mynydd Llanberis, Talodd deyrnged syml i "John El" a oedd yn un o aelodau sylfaenol y tîm achub.

Casglwyd rhagor o arian ar y noson.

# Yn ystod y mis aeth heibio....

- Cafodd deddfwriaeth newydd ei phasio yn y Senedd fydd yn diogelu rhai o adeiladau mwyaf hynafol Cymru. Mae Bil Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn golygu mai Cymru fydd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i roi manylion am yr amgylchedd hanesyddol ar gofnod statudol. Daw'r Bil yn gyfraith o fewn mis gyda sêl brenhinol. Mae hefyd yn golygu fod darpariaeth yn cael ei pharatoi ar gyfer rhestru enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Gall hyn atal y duedd gyffredin bellach o ddisodli enw Cymraeg ar fferm neu dŷ, a rhoi enw Saesneg hollol anaddas iddo.

- Mae adnoddau ardaloedd gwledig yn parhau i gael eu colli. Diflannodd y banc olaf o fewn ein bro fis Awst diwethaf pan gauodd Banc HSBC yn Llanberis. Bydd cryn brotestio, mae'n siwr, yn dilyn y datganiad diweddaraf fod llysoedd mewn ardaloedd gwledig i'w cau, a hynny, yn ôl nifer o gyfreithwyr ac eraill sy'n rhan o'r proffesiwn, yn gwanychu'r broses o weinyddu'r gyfraith yn gyfiawn.

- Mae'r ymgyrch am gael Chwareli Llechi Gogledd Cymru wedi eu dynodi yn safle Treftadaeth Byd yn mynd rhagddi, a chafwyd cefnogaeth gan Brif Weinidog Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf. Byddai'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis ar ei hennill o fod yn rhan o'r fath statws.

- Cynhaliodd Sgrech Gwynedd nifer o gyfarfodydd a phrotestiadau i geisio tynnu sylw at y golled ym myd y celfyddydau pe bai Cyngor Gwynedd yn cyflwyno toriadau llym wrth geisio pontio diffyg ariannol enfawr.......

- ...... a ganol fis Chwefror cytunodd Cabinet y Cyngor ar nifer o argymhellion ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r toriadau i wasanaethau'r sir. Ymhlith yr agymhellion rheini mae cynyddu'r dreth sirol o 3.9% yn hytrach na 3.5%. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r "Eco" eich cyrraedd bydd yr argymhellion wedi eu cyflwyno i'r Cyngor llawn, a'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn sgil Her Gwynedd wedi eu hystyried gan 75 o gynghorwyr. Beth bynnag fo'r dewisiadau, bydd cwyno gan aelodau'r cyhoedd. Ond cofiwch, y Llywodraeth Doriaidd yn Llundain sy'n gyfrifol am wthio'r toriadau hyn, ac nid Cyngor Gwynedd. Eisoes, mae mam a modryb David Cameron wedi protestio yn erbyn toriadau arfaethedig gan Gyngor Swydd Rhydychen – a hynny, efallai, heb lawn sylweddoli pwy sy'n gyfrifol!

# DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)



*Plant Ysgol Gwaun Gynfi yn mwynhau disgo Santes Dwynwen.*











*Enillwyr cystadleuaeth llunio cardyn Santes Dwynwen Ysgol Gwaun Gynfi.*

## Ambiwlans Awyr




Dyma lun rhai o blant Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen yn cyflwyno siec am £100 i Susan Keys, cynrychiolydd Ambiwlans Awyr Cymru a fu yn yr ysgol i siarad gyda phlant CA2.
Mae'r plant hefyd yn hel dillad a theganau i'w rhoi i'r Ambiwlans Awyr i'w cynorthwyo i godi arian.

## Perfformiad o stori Mari Jones



Ar Ionawr 22ain daeth Ffion Glyn i'r ysgol i roi perfformiad o stori Mari Jones yn mynd i'r Bala i nol y Beibl gan Tomos Charles. Roedd pawb wedi mwynhau y perfformiad yn arw iawn. Cafwyd stori wych am ferch 15 oed a gerddodd 26 milltir yn 1800 ar ôl cynilo am 6 mlynedd i brynu llyfr – Y Beibl.

## Cwmni'r Fran Wen – cynhyrchiad Dilyn Fi



Ar Chwefror 10ed bu Cwmni'r Fran Wen yn perfformio Dilyn Fi i blant y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn. Braf oedd cyfle i groesawu plant yr Ysgol Feithrin a'r staff yn ogystal i rannu'r profiad gyda ni.

# PC Dylan Pritchard - Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol



Ar Chwefror 8ed bu PC Dylan Pritchard yn yr ysgol yn trafod ymddygiad
gwrth-gymdeithasol gyda'r plant e.e. torri gwydr, chware 'knock doors', graffiti, galw enwau a bod yn gas. Mae'r plant yn deall bellach bod canlyniadau i ymddygiad gwrth-gymdeithasol a bydd yr heddlu eisiau gweld y rhieni os oes problemau.



## Cynllun Gwên

Mae holl blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun gwên.
Dyma lun a Sarah yn esbonio i'r plant sut i lanhau eu dannedd a pha mor bwysig ydyw gwneud hynny.



## Diogelwch Rhag Tân

Daeth Mr Lance Owen i'r ysgol i drafod Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref.
Cafodd y plant wybod mwy am beth i'w wneud os ydyw'r larwm mwg/tân yn canu adref a phwysigrwydd cadw llwybr dianc, clir allan o'r cartref rhag ofn y bydd tân. Cafodd y plant gyfle i enwi peryglon sydd ym mhob ystafell yn y tŷ e.e gorlenwi socedi, perygl gwifrau tecell, gwresogydd, ayyb yn hongian i lawr.



Dosbarth yn Ysgol Gwaun Gynfi ,neu Ysgol Ganol Deiniolen fel oedd hi, ym mhump degau'r ganrif ddiwethaf. 'Roedd y criw yma yn cychwyn ym Mrynrefail Medi 1957. Bydd yr rhan fwyaf ohonynt sydd ar ôl yn 70 eleni os nad ydynt yn barod.
Cefn: Tommy Jones, Dyfrig Thomas, Victor Wyn Jones, Tommy Evans a Meirion Morris;
Canol: Arnold Morris, Elwyn Griffiths, Pat Jones, Margaret Woodcocks, Einir Wyn Pritchard, Eilian Jones, Arwel Jones a Miss Nancy Ellis (Mrs Issac Jones wedyn);
Rhes isaf ond un: Dorothy Plemming, Mair Rees Jones, Buddug Williams, Doreen Lewis a Mair Jones;
Ar y llawr: Glyn Shadrach Jones, Alec Jones a Gwilym Williams (a anfonodd y llun a'r wybodaeth).

**Eglwys Crist - Gwasanaethau'r Pasg**
Dydd Sul Mawrth 20fed: am 10yb, Sul y Blodau, Cymun Bendigaid Cymraeg, Canon Idris Thomas.
Mawrth 25ain: Dydd Gwener y Groglith i'w drefnu.
Mawrth 27ain: Sul y Pasg, 10yb Cymun Bendigaid Cymraeg gyda chyfraniad gan blant yr Ysgol Sul, Canon Idris Thomas.
Croesi i bawb ymuno yng Ngŵyl y Pasg.

**Hoffai** Pat a Maureen ddiolch o galon i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am y cardiau, arian a'r galwadau ffôn. Fe gollodd Pat ei mam, sef Mair Maule, gynt o Ddeiniolen, diolch yn fawr i bawb. Mae'r arian a gasglwyd yn mynd tuag at ymchwil strôc.

**Diolch** Yn dilyn angladd Malcolm Lloyd Jones ar dydd Iau, Rhagfyr 17eg, dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u geiriau caredig. Casglwyd £380 tuag at Ymchwil y Galon, diolch i bawb.

**Llongyfarchiadau** Dymuniadau gorau i Urien (gynt o Rhes Faenol) a Iola ar achlysur genedigaeth eu plentyn cyntaf yn ddiweddar, Aria Glwys. Pob lwc i chi eich tri.

## Cefnogwch ein hysbysebwyr

## CWM Y GLO

**Undeb-y-Mamau** Cwm-Glo Cyfarfu'r aelodau yn eglwys Sant Mair pnawn Mawrth, 16 Chwefror. Cafwyd gwasanaeth arbennig i dderbyn dwy aelod newydd, Caroline a Ruth. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Rheithor, Y Parch Roger Donaldson. Darllenwyd salm 47 gan Dorothy a'r llith gan Pauline. A'r ôl y gwasanaeth cafwyd y cyfarfod yn y festri. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd mis Ionawr gan Auriel a phasiwyd eu bod yn gywir. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Hilda, Joyce, Enid a Jini Salisbury. Darllenwyd cerdyn o ddiolch oddi wrth Gwen Baxter gan Auriel.

Materion a drafodwyd. Cytunodd Joyce i wneud poced i'w rhoi a'r faner Undeb-y-Mamau Llanrug a Cwm-Glo i ddathlu 125 blynyddoedd y mudiad yn deoniaeth Bangor. Bydd gwasanaeth yn y Gadeirlan ar 5 Ebrill. Gofynnwyd i'r aelodau feddwl am emyn a gweddi i'w rhoi yn y boced. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Jini a Louie. Rhoddwyd y raffl ganddynt ac fe'i henillwyd gan Jean Ellis. Diolchwyd i'r gwesteion gan Dorothy. Terfynwyd y cyfarfod gyda gweddi. Cyfarfod nesaf Mawrth 15.

**Diolch.** Dymuna Esme, 24 Dôl Afon, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am yr holl anrhegion, arian a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar Ionawr 14.

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Elwyn Foulkes a'r teulu, 3 Rhes Bryn yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, Gareth, ym Mrynrefail (gynt o Lanberis).

**Cofebion** Fe gynhaliwyd pwyllgor cyhoeddus yn yr Ysgol Gymuned nos Fercher, 3ydd o Chwefror, i drafod man i roi Cofebion yr hogiau a gollodd eu bywydau yn y rhyfeloedd. Cofebion ydynt o Gapel Tabernacl, Eglwys St Gabriel a Chapel Mawr.

Penderfynwyd yn unfrydol eu bod yn cael eu gosod tu mewn yn Neuadd yr Ysgol, a hefyd ein bod yn torri eu henwau ar lechen a'i gosod yng ngardd yr ysgol.

Mae angen gwybodaeth am y canlynol, neu am eu teuluoedd, a'r cyfan yn dyddio o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf:

Morris M. Roberts, Gelynnen House; Hugh R. Roberts, Tan Rallt Goch; Willie Price, Pant Afon; Thomas O. Hughes, Bryn Crwn Terrace; Owen Hughes, Bryn Crwn Terrace; Owen Jones, Dinorwig Stores a Robert P. Jones, Ty'n rardd.

Diolch i bawb am gefnogi'r noson.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

**Profedigaeth** Ar Chwefror 15fed yn dawel yn ei gartref, Bryn Derw, bu farw John Gareth Foulkes (Gary) yn 72 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad dwysaf fel ardal â'i briod Llinos a'r plant Llifon, Elwyn a Janet a'u teuluoedd a'r perthnasau oll yn eu profedigaeth.

**Sefydliad y Merched** Yng nghyfarfod mis Ionawr cawsom fel cangen ein difyrru gan Ellen Lloyd Jones oedd yn arddangos ei chrefft o wneud hetiau ar gyfer priodasau. Mae Ellen yn enedigol o Lanberis ond yn awr yn byw ar Ynys Môn.

Hefyd ym mis Ionawr, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched Gwynedd Caernarfon yn Ysgol Brynrefail Llanrug. Y wraig wadd oedd y Dr Helen Roberts o'r Felinheli a'i sgwrs ar y testun 'Merched Enwog'. Cafwyd mwynhad llwyr o'i gwrando yn trafod cyfraniad Marie Curie, Elizabeth Garnett, Eleanor Rathborne a Madame Nell Melba.

Yng nghyfarfod mis Chwefror, y siardwr gwadd oedd Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug. Bu'n sôn am lofruddiaethau yn yr ardal hon yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a phawb yn cael cynnig rhoi eu barn ar ganlyniadau y marwolaethau hyn.

Ac edrych ymlaen i fis Mawrth, cynhelir Bwffe Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Llanberis a hynny ar nos Iau y 17eg am 7 o'r gloch. Bydd cystadleuaeth i'r aelodau i wneud yr Het Basg orau.

Bydd dau gyfarfod pellach i'w nodi yn y dyddiadur ar gyfer mis Ebrill a'r ddau yn cael eu cynnal unwaith eto yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Llanberis. Y cyntaf nos Lun, Ebrill 4ydd ar ffurf noson 'Antiques Road Show' pryd y disgwylir i'r aelodau ddod ag eitem i'w brisio a'i ddyddio.

Ar y nos Lun, Ebrill 25ain, aelodau o Sefydliad y Merched Brynrefail fydd y modelau mewn noson o Sioe Ffasiynau 'Suzie's Fashions'.

### YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Oedfaon Mawrth am 5 yr hwyr


6: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

13: Parch Cath Williams, Caernarfon

20: Parch Geraint Roberts, Porthaethwy

27 SUL Y PASG: Parch Gwenda Richards, Caernarfon

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd




—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU ▫ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

## DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292

**Marwolaeth** Ar 21ain o Ionawr, wedi salwch blin, bu farw Dr Robert John Jones yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, yn 65 mlwydd oed. Fe'i ganwyd a'i magwyd yng Nghae Canol, Fachwen, yn fab i'r diweddar chwarelwr Emanuel Huw ac Enid, ei wraig, ac yn frawd annwyl a hoffus i Gwenfron a Huw Gwyn.

Cafodd ei addysg yn Ysgol Dinorwig, yna Ysgol Brynrefail. Wedi hyn aeth i Goleg y Brifysgol, Bangor, lle y bu am flwyddyn, yna cafodd ei dderbyn i'r coleg deintyddol yn Lerpwl. Yn ystod y gwyliau bu yn gweithio ar y fferi o Gaergybi i Dun Laoghaire a dyma sut y cyfarfu ei wraig, Eirian.

Wedi iddo raddio dechreuodd ei yrfa ddeintyddol yn Coventry cyn dod yn ôl i ogledd Cymru lle y dechreuodd fusnes deintyddol yn Ffordd y Coleg, Bangor.

Ganwyd iddynt ddwy o enethod, sef Alison a Jennifer, yna daeth yn daid hoffus a charedig i Leah, Morgan, Mali a Math. Gweithiodd yn Ffordd y Coleg am flynyddoedd cyn symud i lawr i Ddeintyddfa Gwynfryn, ac oddi yno bu iddo ymddeol yn 2012.

Yr oedd yn swynwr ardderchog hefyd a bu iddo arddangos ei fedrusrwydd yn y maes yma ar S4C. Yr oedd Robert yn fedrus iawn mewn llawer maes ac yn perthyn i lawer cymdeithas. Bu ei angladd yn gyhoeddus yn Berea Newydd MC yn Lôn Penrhos, Bangor, ar 30ain Ionawr, lle y daeth tyrfa ynghyd i dalu'r gymwynas olaf, yna rhoddwyd ei gorff i orffwys yn mynwent Llanfair-is-gaer, ger Y Felinheli.

Cydymdeimlwn yn fawr fel ardal hefo Eirian a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Boed ichwi gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma, ac yr wyf yn sicr y bydd cofio y dyddiau gorau a gawsoch yn dod â gwên i'r wyneb. Yn meddwl llawer amdanoch fel teulu.

**Gwahoddiad** Diolch i Andy a Caroline am eu gwahoddiad i weld Capel MC Dinorwig ar ei newydd wedd. Ymddiheuraf, hefo eraill, na allwn dderbyn y gwahoddiad i'w weld. Gwell gennyf gofio yr hen gapel fel ag yr oedd, lle bu imi gael fy medyddio a'm derbyn yn gyflawn aelod, ac yn hapus iawn yno.

Er fy mod ers dros bymtheng mlynedd bellach waedi ymaelodi yng Nghapel Cefn y Waun, ac yn presenoli fy hun yno bob Sul ac wedi cael croeso, capel Dinorwig sydd yn dal i fod yn gapel i mi ac yno mae fy nghalon. Diolch am fod wedi cael bod yn aelod yno, mae hiraeth amdano mor gryf ag erioed, yr oeddem yn un teulu hapus yno.

**Cwyno** Deallaf fod llawer o gwyno yn yr ardal ar hyn o bryd. Dim ond gobeithio y bydd pawb yn gwella fel y daw y gwanwyn ac y cawn eich gweld yn mynd a dod yn yr ardal. Cofion annwyl iawn at Mrs Megan Morris, Minffordd ym Mhlas Garnedd, Llanberis. Da yw deall eich bod yn dal yn weddol.

**Meithrin Menter Gymdeithasol Leol**

**Am gymorth:**
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
**cysylltwch â Mantell Gwynedd**

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

## FACHWEN


Dwy Soned Er Cof am Dr Robert John Jones
(deintydd da, consuriwr, hwyliwr a pheilot)
Magwyd mewn tyddyn – Cae Canol, Y Fach-Wen
yn y 50au/60au)

### Hogia Fach-Wen

Yr unig gymhwyster i'n galw'n un
o 'Hogia Fach Wen', yn fab neu yn ferch,
yw crud ein maboed – a bod ynom serch
yn nwfn 'r ymysgaroedd tuag at y lle
rhwng Dinorwig i lawr hyd Bont Penllyn -
ac sy'n drydanol drwom. Dan y ne'
nid oes unman tebyg – na'n dyddiau gwyn
yno… Mewn sgwrs neu drem o gofio'n ôl
daw yr hen gyd-fyw, a'r hen gyd ddyheu
pobol y chwarel a chapel a'i chol
a fowldiodd ein byd, ni fu y fath well...
Meddyliais mewn dwyster a phrudd-der llon
Y cyfoeth gaed - yng ng'nhebrwn Robat John!
Norman Closs

### Robat!

Yn nwfn ei enaid, roedd rhyw 'antur' fawr
i chwilio ffiniau'r elfennau a'r rhod,
tosturia ag angen 'dyn ar y llawr'
ond, anniddig oedd, rhaid gwir fyw a bod…
Gwybodaeth, dysgeidiaeth, un sialens fu
i wthio gorwelion tu hwnt i'r lein,
cymysgfa deintydda, pleserau lu
y gwaith bob dydd a rhoi gwasanaeth ffein,
ond yn ei hamdden, magned môr a nef -
a dyfnder yr angerdd i ddeall mwy
o gonsurwaith cosmos (dewin oedd ef)
a'r hwylio, a'r hedfan a chwilio'r "Pwy?"
Segur bellach y plên a'r cychod llon…
A Robat a wêl dros y 'seithfed don'.
Norman Closs




**Llun o'r 50au…**
Norman Closs yn mynd â dau o Hogia Fach-Wen i bysgota… Robat Jon (chwedl trigolion yr ardal) sydd yn gwisgo cap ac yn cario'r enwair.

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

# Gŵyl Cadair Dinorwig






Ym mis Mawrth 1908 ymddangosodd hysbyseb byr ym mhapur Yr Herald Cymraeg yn hysbysebu fod Gwyl Cadair Dinorwig i'w chynnal ar yr ail ar hugain o Awst y flwyddyn honno, a bod y rhestr testunau ar gael gan yr ysgrifennydd Mr David Owen, Madog Park, Brynrefail am geiniog (ceiniog a dimai drwy'r post!). Mae'n amlwg felly fod y trefniadau ar gyfer yr Ŵyl wedi eu cychwyn wythnosau, os nad misoedd ynghynt. Dyma'r cofnod cynharaf i mi ei ddarganfod am gyhoeddi'r fath Ŵyl, ond mae'n amlwg y byddai darllenwyr y papurau wythnosol yn gwybod ble roedd i'w chynnal, oherwydd yn ogystal a'r rhestr testunau, roedd "darlun o'r hen Lys" i'w gael hefyd. A hen Lys Dinorwig ym Mrynrefail oedd hwnnw, wrth gwrs. Tybed oes copi o'r rhestr testunau rheini (a'r llun) yn dal ym meddiant rhywun heddiw?

Mae'n ymddangos mai Alafon, gweinidog Capel Ysgoldy oedd llywydd y pwyllgor fu'n trefnu'r Ŵyl, ac er mai fel Gŵyl Cadair Dinorwig y cyfeirir ati yn y mwyafrif o'r papurau newydd, gwelir hi hefyd yn cael ei galw yn Eisteddfod Gŵyl Cadair Dinorwig ac Eisteddfod y Llys.

Ym mhapur wythnosol Gwalia y ceir y disgrifiad gorau o ddiwrnod 'Eisteddfod y Mynyddau' yn niwedd Awst 1908. "A'r Sadwrn oedd hi, ac Awst yn ei felyster. Yn y bore fe bruddhaodd yr wybrennydd hyd at wylo, eithr wedi ychydig gawodydd, ciliodd y cymyl a daeth tiriondeb dros wedd y nawndydd."

Ar lawnt Llys Dinorwig y cynhaliwyd yr eisteddfod, ac yn ôl adroddiadau'r papurau newydd roedd mur yr hen Lys yn dal yno, er ei fod yn dadfeilio. Gerllaw adeiladwyd llwyfan o dywyrch a chlwydi, gyda llwyfan arall o goed wrth ei ochr. Ar hwnnw roedd telyn a phiano. Gosodwyd rhesi o feinciau o flaen y ddau lwyfan, ac ar y rheini yr eisteddai y gynulleidfa, gyda llawer mwy yn sefyll tu cefn iddynt. Roedd trefnwyr ac arweinwyr yr Wyl ar y llwyfan: Y Parch James Salt, Alafon, Edward Foulkes, Llanberis, Berw, Glan Alaw, Deiniolfryn, William Williams, Bodygof, a'r cerddor, Joseph Thomas, Cwm y Glo. Telynores Gwalia oedd wrth y delyn.

Enillydd y Gadair oedd Glyn Hefin, Waunfawr, ac enillydd y goron oedd J.M.Pritchard, Clwt y Bont. Llongyfarchwyd y ddau ar eu llwyddiant gan Berw, Alafon, Deiniolfryn, Cyngar a Caerwyn.

Enillwyr eraill, (a diddorol sylwi ar yr amrywiaeth yn y testunau) oedd : Adrodd dan 15 oed, Eunice Williams, Llanberis; Byr hanes o gestyll y cylch, Humphrey Owen, Brynrefail; Canu'r crwth, Willie Price, Ebenezer; Englyn, David Owen, Waunfawr; Unawd dan 15 oed, Maggie Hughes, Rhiwen; Telynegion, Gwynedd Hughes, Llanberis; Canu Penillion, Richard John Roberts, Llanrug; Cyfansoddi anthem angladdol, Henry Thomas, Clwt y Bont; Prif Adroddiad, David Owen, Ebenezer; Prif Draethawd, William Davies, Llanrug; Prif Unawd, Robert R. Williams, Ebenezer; Llawfer Gymreig, R.M.Williams, Coed Mawr, Llanberis; Atebion ar ddaeareg, M.R.Owen, Llanrug, a darlun o Hen Delynor, H.O.Edwards, Clwt y Bont.

Yn canu can y cadeirio a'r coroni roedd Mrs Foulkes Roberts, Brynrefail.

Does dim son am y beirniaid yn yr Ŵyl gyntaf hon, ond erbyn Gŵyl Cadair Dinorwig flwyddyn yn ddiweddarach, roedd rhai o enwogion Cymru'n bresennol. Anthropos a'r bardd T.Gwynn Jones oedd y llywyddion anrhydeddus, gydag Alafon yn arwain y gweithgareddau. Roedd Telynores Gwalia yn ôl unwaith eto, a chafodd dwy ferch ifanc, Miss M.Griffith, Cwm y Glo a Miss M.Jones, Dinorwig y fraint o gyflwyno'r gwobrau. Yn beirniadu'r cystadleuthau barddoniaeth roedd yr Athro John Morris Jones, Alafon a Cyngar. Edward Foulkes a'r parchedigion H.Edwards, Clwtybont ac E.Wynne Jones, Ebenezer oedd yn beirniadu'r rhyddiaith. Athrawon yn Ysgol Sir Llanberis – Madoc Jones ac R,Williams Parry oedd yn beirniadu'r cyfieithiadau, gyda Deiniol Fychan a'r Parch Collwyn Morgan yn feirniaid adrodd. Yn yr adran gerddorol, y beirniaid oedd Dr J.Lloyd Williams, Bangor, Joseph Thomas, Brwynog Jones a Thelynores Gwalia. Alaw Mai oedd yn cyfeilio.

Cynhaliwyd dau gyfarfod, gyda hanner awr o egwyl rhwng y ddau, a Seindorf Ebenezer yn diddori'r gynulleidfa'n ystod yr egwyl. Dyma restr o'r testunau a'r buddugwyr:

Cyfieithu (29 yn cystadlu) Edwin Williams, Minafon, Llanberis. Gwnio: Miss M.Griffith, Bedwargoed House, Llanberis a Mrs M.Williams, Orwig terrace, Brynrefail. Hir a Thoddaid: Dewi Gwyrfai, Waunfawr. Unawd dan 18 oed: Grace Davies, Charlotte Street, Llanberis. Traethawd ar Arferion Cymdeithasol y Chwarelwyr: Thomas Jones Parry, Dinorwig. Adrodd: Rhys Owen, Penisarwaun. Canu'r piano: Annie Jones Owen, River

View, Brynrefail. Englyn: Glyn Hefin, Waunfawr. Casgliad o flodau gwylltion: Dilys Closs, Plastirion, Llanrug. Deuawd: Y brodyr Lewis, Ebenezer. Coron arian am bryddest i Gastell Dolbadarn: Deiniolfryn. Ef hefyd enillodd yr hyn sy'n cael ei galw'n 'gadair llyfrgell' am ysgrifennu rhamant. Darnau cerddorol i blant ysgol: T.O.Hughes, Ebenezer. Adrodd: D.W.Owen, Parc Madog. Cywydd: Glan Rhythallt, Llanrug. Unawd: R.Radford Jones, Caernarfon.

Cadair yr Wyl am awdl ar y 'Pedwar Gwynt': Anant o Dalysarn. Dr Roberts, y Castell oedd yr Archdderwydd. Telynegion (16 yn cystadlu): John M.Pritchard, Clwt y Bont.

Mae'n amlwg oddi wrth y rhestr enillwyr mai lleol ei naws oedd yr eisteddfod, ond roedd un enillydd o gryn bellter, gan mai gwr o Gaerfyrddin oedd yn fuddugol ar wneud print menyn. Sut yr anfonodd ef i Frynrefail tybed, ac a ddaeth yno i hawlio'i wobr?

Yr ysgrifennydd oedd D.W.Owen, Parc Madog a'r Trysorydd oedd Edward Thomas, Coed Madog, y ddau o Frynrefail.

Mae'n ymddangos mai dim ond am y ddwy flynedd hyn y cynhaliwyd yr Ŵyl. Methais a darganfod cyfeiriad ati mewn unrhyw flwyddyn arall. Beth tybed fu'r achos am hynny?

Yn ol traddodiad dywedir mai cadair o eiddo'r hen Farged uch Ifan a ddefnyddiwyd ar y llwyfan ar gyfer y prif seremoniau, ond ni welais gyfeiriad at hynny yn yr adroddiadau papur newydd.

Gan i mi son yn y rhifyn diwethaf fod bwriad trafod Gŵyl Dinorwig, cefais alwad ffôn yn dweud fod medal ar gael – un a enillwyd yn un o'r ddwy eisteddfod. Ymddiheuraf am safon y lluniau o'r fedal, ond roedd y sglein ar yr arian yn cael ei adlewyrchu er gwaethaf fy ymdrechion amaturaidd i'w osgoi! Mae llun telynores ar un ochr i'r fedal, a Gŵyl Cadair Dinorwig wedi ei gerfio ar yr ochr arall. Ond am beth yr enillwyd y fedal? Mae'n fedal arian, gyda 'hallmark' Swyddfa Gwirio Birmingham arni. Yn anffodus, nid yw'r marciau eraill yn ddigon clir i fedru penderfynu ar y dyddiad. Methais a darganfod adroddiad mewn papur newydd yn dweud fod medal wedi ei chyflwyno i enillydd. Ond os oedd y fedal yn arian, a oedd rhai eraill wedi eu cyflwyno hefyd? Ac os oedd, faint oedd y gost o'u bathu? Bydd angen cryn dipyn mwy o ymchwil i ddarganfod yr atebion.




Mae'r llun o un o'r gwyliau yn eithaf adnabyddus, ac wedi ymddangos eisoes, flynyddoedd yn ôl yn rhai o rifynnau cynnar yr "Eco", a hefyd yn y llyfr Hen Luniau Bro Eco'r Wyddfa. Ond pa un o'r ddwy Ŵyl a ddangosir yn y llun?

# Cofebau Cwm y Glo.

Yn ystod y mis diwethaf cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng Nghwm y Glo (gweler y newyddion pentref) i drafod dymuniadau trigolion y pentref i gadw'r cofebau sydd wedi eu hachub yn dilyn cau'r llefydd o addoliad yn y pentref. Y bwriad yw cysylltu a theuluoedd rhai o'r bechgyn a enwir ar y cofebau. Mae nifer dda o'r teuluoedd rheini yn wybyddus, ond mae rhai enwau'n peri trafferthion.

Mae angen gwybodaeth am y canlynol, neu am eu teuluoedd, a'r cyfan yn dyddio o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf:

Morris M. Roberts, Gelynnen House; Hugh R. Roberts, Tan Rallt Goch; Willie Price, Pant Afon; Thomas O. Hughes, Bryn Crwn Terrace; Owen Hughes, Bryn Crwn Terrace; Owen Jones, Dinorwig Stores a Robert P. Jones, Ty'n rardd.

Mae peth penbleth hefyd ynglŷn â pha adeilad oedd Dinorwig Stores. Tybia rhai mai dyma enw 'swyddogol' yr hen Siop Fawr, ond tybia eraill mai enw ar siop ydoedd rhwng Seiont House a hen Siop Eric; hynny yw, rhan o adeilad Menter Fachwen erbyn heddiw.

Os oes rhywrai gyda gwybodaeth am deuluoedd yr uchod, neu am Dinorwig House, byddwn yn falch o glywed gennych.

# Priodas Rhos-ddu.

Cysylltodd Gareth Pritchard (Tan y Coed gynt) i roi enwau rhai o'r bobl a oedd yn rhan o'r parti priodas. Roedd cysylltiad teuluol rhyngddo a theulu Rhos-ddu, ac arferai ymweld a'r tyddyn pan yn fachgen. Kate Olwen Owen oedd y briodferch, gyda'i chwiorydd y naill ochr i'r pâr priod. Roedd "Miss Owen, Rhos-ddu" yn athrawes yn Ysgol Ganol Llanrug (Ysgol Gynradd yn ddiweddarach). Yn y llun hefyd mae Richard Pritchard (Tŷ Newydd, Llanrug yn ddiweddarach) a'i frawd Tom Pritchard.

# Beth ddigwyddodd i Humphrey Thomas Llew Hughes?

Yn anffodus, ni ddaeth ateb i'r cwestiwn, ond cysylltodd Gareth Roberts (Cerdded a Darganfod) a Dylan Hughes, Crawia, Llanrug, gyda pheth gwybodaeth. Gan fod cofnodion am Humphrey Hughes yn ymddangos mewn gwahanol drefi a dinasoedd yng Ngogledd America, awgryma Gareth fod iddynt i gyd rhyw gysylltiad efo cwmni Du Pont. Tybed felly, a fu Humphrey yn gweithio i'r cwmni hwnnw?

Aros yn Llanrug wnaeth Dylan, a chyfeirio at aelodau o'r teulu yno. Mae wedi lleoli'r bedd teuluol ym mynwent Llanrug, a hwnnw wedi ei adnewyddu'n gymharol ddiweddar. Y gobaith yn ystod yr wythnosau nesaf yw cysylltu efo rhai aelodau o'r teulu gan obeithio fod ganddynt fwy o wybodaeth am hanes eu perthynas yn America.

# Heddlu Deiniolen.

Gyda diolch i Ceri Foulkes am gysylltu ac egluro mai prif waith y plismyn hyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd oedd gofalu fod y 'blacowt' yn cael ei weithredu yn y pentref a'r ardal, ond yn bennaf, gofalu am y gwersyll yng Nghae'r Mynydd ar lethrau Moel Rhiwen. Mae olion rhai o'r ffyrdd concrit a adeiladwyd yn y cyfnod hwn yn dal yno heddiw, yn ymestyn o gefn Tomen y Castell i fyny'r llethrau at Gae'r Mynydd a Beran, ac ar draws i gyfeiriad pentref Rhiwlas. Tybed oes atgofion gan rywrai am y prysurdeb a fu yno dros gyfnod gweddol fyr?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Gwasanaethau y Capel.**

Mawrth 6 ed am 2 o'r gloch: Parch Marcus W. Robinson, ac am 3o'r gloch cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Capel i'w ddilyn gyda chyfarfod o'r swyddogion am 3.15.

Mawrth 20fed am 10 o'r gloch y bore: Parch Gwyndaf Jones.

Mawrth 27ain am 2 o'r gloch: Addoliad y Pasg o dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson.

Llywydd ac organyddes y mis fydd Deiniol Hughes a Nia Jones.

**Teulu Tyddyn Uchaf** O fewn chwe niwrnod i'w gilydd fis Ionawr bu farw Viv a Blethyn Morgan, Tyddyn Uchaf. Daeth y ddau o Benllech i fyw i Gaeathro yn 1979. Yn enedigol o'r Bari, roedd gan Blethyn ddiddordeb mawr yng Nghlwb Rygbi Caernarfon lle bu'n Llywydd am flynyddoedd, ac roedd ganddo ef a Viv ddiddordeb mawr yn llwyddiant plant Caeathro mewn rygbi a gemau meysydd chwarae. Cydymdeimlwn â dau fab Blethyn a gyda merch a mab Viv yn eu colled fawr.

**Tynfa mis Chwefror** £40: Rhys Evans, Caeathro Bach (8); £25: P. Jones, Rhyddallt Bach (91); £15: Norman Hughes, Llyn Gele (35); £5: Dan Jones, Gwêl y Grug (14).

**Cadw Caeathro'n daclus** Y llynedd casglwyd oddeutu ugain bag o sbwriel mewn dwy awr ar ochr ffyrdd yr ardal gan wirfoddolwyr o'r pentref. Gobeithir cael ymgyrch debyg yn fuan. Yn y cyfamser, gyda bag a maneg, gall llawer ohonom leihau nifer y caniau, poteli a phlastig sydd yn anharddu ein ffyrdd. **Cydymdeimlad.** Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Lleifior yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl.

### Ifor Hughes

Ar Chwefror 4ydd yn dawel yn ei gartref, Lleifior, Caeathro, yng nghwmni ei deulu, bu farw Ifor Hughes. Roedd yn ŵr, tad a thaid arbennig, brawd triw a ffrind i lawer. Gwasanaethpwyd yng Nghapel Caeathro gan y Parchedig Marcus Robinson a thalwyd teyrnged anrhydeddus iddo gan Mr. Geraint Lloyd Owen a'r Parchedig W.R. Williams. Yr organyddes oedd Bethan Iwan a threfnwyd y blodau gan Sioned Rowlands.

Gŵr ei deulu a'i bentref oedd Ifor a chyfrannodd yn hael ar hyd y blynyddoedd i sicrhau'r gorau i Gaeathro. Edmygai llawer ei lais peraidd, ei ddawn sgwrsio a'i wên ddireidus, ac yn anad dim ei bersonoliaeth hawddgar. Bydd gwacter enfawr ar ei aelwyd a chwithdod mawr o'i weld yn cerdded y pentref. Yn ei waeledd cafodd ofal arbennig gan feddygon Waunfawr a gofalwyr Gofal Bro ac rydym fel teulu yn hynod ddiolchgar o bob caredigrwydd a haelioni a ddangoswyd tuag atom.

Mae'r ddwy gronfa (sef Meddygfa Waunfawr a Chapel Caeathro) yn parhau ar agor os dymunwch gyfrannu er cof am Ifor.

Carem ddiolch i Gwyn o gwmni Ymgymerwyr Gwilym Jones, Caernarfon am ei drefnu trylwyr ac i Glan Gwna am ddarparu lluniaeth wedi'r angladd.

Cafodd Ifor ei roi i orffwys ym Mynwent Caeathro ar yr 11eg o Chwefror.

## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran.
Ffôn: (01248) 670726

**Clwb Bro Bethel** Judith Humphreys, Penygroes, oedd yn annerch yr aelodau y mis yma a chafwyd ganddi sgwrs ddiddorol iawn ar y prosiect CODI'R TO. Mae'r prosiect yn dod â'r cynllun byd enwog EL SISTEMA i ogledd Cymru ac yn gweithio mewn dwy ysgol gynradd yn y cylch sef Ysgol Glancegin ac Ysgol Maesincla. Nod y cynllun ydi rhoi cyfle i bob disgybl bl.4 yn Glancegin a phob disgybl bl 5. ym Maesincla ddysgu chwarae offerynnau pres a tharo. Mae'n gynllun cyffrous iawn, ac yn dilyn y sgwrs dangoswyd fideo o'r holl weithgareddau sydd wedi cymryd lle ers y cychwyn.

Dathlu Gŵyl Ddewi fydd yr aelodau y tro nesaf a hynny ar ddydd Mawrth, Mawrth y 1af, yn yr Ysgol. Gofynnir i bawb ymgynnull erbyn 1.00 o'r gloch.

**Merched y Wawr,** Chwefror 10fed Cafwyd noson hwyliog iawn yn blasu gwin yng nghwmni ffrindiau yn neuadd Bethel. Y Parchedig Marcus Wyn Robinson oedd y 'sommelier', wnaeth ein cyflwyno i wahanol winoedd, tri gwyn a thri coch, o'r Eidal, Ffrainc, Yr Ariannin a Chile. Mawr fu'r mwynhad wrth gael ein harwain ar sut i arogli a blasu. Cawsom gyngor gŵr profiadol ar pa winoedd sy'n addas ar gyfer pa fath o fwyd.

Darparwyd danteithion gan aelodau'r pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Cadi, Iona, Pat,a Sylvia o Waunfawr a Ann a Delyth o Fethel. Diolchwyd i bawb gan Mair, yn arbennig i ganghennau Waunfawr, Tregarth a Penrhosgarnedd am ein cefnogi. Gwnaethpwyd elw sylweddol tuag at ymchwil y galon.

Ar Fawrth 9fed byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi yn Nhafarn y Bont yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Noddir y noson yma gan y cynllun 'Noson Fach Allan'.

**Cymdeithas Lenyddol** Bydd y cyfarfod mis nesaf yn Festri Bethel nos Fawrth, Mawrth 15eg, gyda Gerwyn James yn ŵr gwadd.

**John Richard Evans, Pen Parc, Bethel**

Dymuna Elizabeth, David, Ann, Shân, Ceri a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli John. Priod, tad, taid, tad-yng-nghyfraith a chefnder annwyl iawn.

Bu pob gair a gweithred yn gymorth mawr iddynt. Diolch i Ysbytai Gwynedd ac Eryri, i Nyrsus a gofalwyr yn y gymuned, ac i'r meddyg teulu, Dr Carmen, a'r staff yn Hafan Iechyd am eu gofal diflino a charedig.

Diolch i'r Parch Marcus Wyn Robinson am ei wasanaeth ac i'r organyddes, Mrs Deilwen Hughes. Diolch hefyd i Iolo a chwmni Roberts a Owen am y trefniadau gofalus a thrylwyr.

Derbyniwyd £2,250 o roddion er cof am John sydd i'w rannu rhwng Diabetis UK Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru.

**Clwb 100 Neuadd Goffa Bethel**

**Mis Tachwedd:** £25: Dafydd Jones, 10 Tan y Buarth (40); £15: Llinos Spencer, 31 Bro Rhos (99); £10: Idris Rees, 6 Y Rhos (38).

**Mis Rhagfyr:** £25: Gwenno Thomas, 4 Cremlyn (97); £15: Eirian Williams, 12 Cremlyn (94); £10: Ynyr Hughes, 31 Bro Eglwys (19).

**Mis Ionawr:** £25: Phyllis Bennett, 21 Cremlyn (95); £15: Gwilym Williams, 20 Y Ddol (80); £10: Jonathan Farrar, 7 Rhoslan (18).

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

# *Hyn ac Arall*
# *A welsoch chwi un?*

**Ia! gwiwer ar lethrau'r Wyddfa!**

Wir i chi, ac mi all Linda, fy nghymar, ategu'r hyn a ddywedaf, tua pymtheg mlynedd yn ôl, yn ystod un haf hirfelyn tra godidog (mae nhw i gyd!) tra'n moduro dros y mynyddoedd o Lanuwchllyn i Ddinas Mawddwy. Lind yn driw wrth y llyw a diolch i'r Iachawdwriaeth gan mil o weithiau am hynny! Wiw i mi! Ond dyna fo, y mae'n rhaid imi gyfadda'n wylaidd ddigon nad dyn gyrru car mohona i (ni fues i fawr o giamstar efo beic chwaith! Gan nad ydw i, dalltwch chwi, yn gwbl ddiogel ar fy nwy droed, fel y gŵyr ambell iâr mwy sidet na'i gilydd am ei chynffon, wrth imi yrru berfa i bob man ond y lle iawn ar y fferm cw). Beth a welsom ni ynghanol y criw defaid ar yr ucheldir ond gwiwer lwydaidd ei blewiach, yn carlamu mynd nerth ei thraed dros y borfa, fel y march gosgeiddig hwnnw a feddai Rhiannon ym Mhedair Cainc y Mabinogi,. Beth aflwydd roedd hi'n da yno? Ai chwilio am fwyd (ia! bur debyg) neu newid cwm, gan fod digalondid wedi chwalu dros y creadur, neu greadures, gan ei orfodi neu ei gorfodi, os mai hi, i newid cynefin ac hynny er mwyn dyfod o hyd i gariad, epilio (fel na mae hi ym myd natur, wyddoch chi, ac 'efo pobol i ryw radda')

Peth garw ydi bod yn unig ym myd natur. Does chwaith wrthrych mwy amddiffynnol na chreadures wedi bwrw rhai bychain. Myn ar y reddf i amddiffyn, a phwy â'i beier? Y bychan ydi'r bychan – aur ei byd. Gall ambell fuwch ifanc, neu hen, wedi geni llo /lloi, encilio i ganol llwyn drain, a'ch cynnig chwi, os mentrwch feiddio nesau ati.

Sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn, canodd y teliffon cw! Eifion Llanber oedd yno, a difyr-diddorol bob amser – y mae'n brofiad creadigol-fyw, ydi cael sgwrs efo fo. Gall sgyrsia o'r fath godi calon rhywun i'r entrychion. Dydi byw ar fferm heb fod yn wynfyd i gyd; gall fod yn drybeilig o unig ar adegau. Ishio dweud wrtha i roedd Eifion fod deryn, sef dresglen wedi ymosod ar wiwer lwyd. Pam? Tybed a oedd na nyth gerllaw? Ai ymosod, a hynny er mwyn amddiffyn ei chywion, neu o bosib ei wyau a wnaeth y ddresglen? Wyau ddwedaist ti, Guto? Ia ffrwythau ' rhen ieir. Y mae wiwerod, pa wahaniaeth pa liw ydynt, yn dra sgut am fwyd (teulu'r llygod mawr ydynt!) ac y mae wyau ieir yn fwyd!

Rai blynyddoedd yn ôl daliais, cyn ei gollwng yn rhydd, wiwer lwyd yn y cwt ieir yma yng Nglascoed. Doedd hi heb fod yno, wranta' i, i gnoi ei chil ar hadau, nac i edmygu ei chynffon! Nag oedd! Bwyd ydi bwyd!

A dyma ddychwelyd at yr hyn a ofynnwyd mor daer ar y dechra, sef a welsoch chi wiwer, does wahaniaeth pa liw ydyw hi neu fo, ar lethrau'r Wyddfa? Ia! Porfa, cynefin, a bwyd yn ddiamheuol. Beth a wnewch chwi o hynny? Gadewch inni wybod os gwelwch chwi'r lwyd, neu'r goch, rhwng copa'r Wyddfa a rhywle ger Benceunant.

Dafydd Guto Ifan

# *Llyn Llam Dda*



Tybed oes rhai o bysgotwyr y Waunfawr a'r cyffiniau gyda gwybodaeth am y pwll hwn yr afon Gwyrfai yn agos at Blas Glanrafon. Mae'n ymddangos ei fod yn cael ei alw'n Llyn Tsaen (chain) hefyd oherwydd fod dolennau haearn wedi eu gosod yn y creigiau ar y naill ochr i'r afon. Yn ol pob son, dwy gadwyn oedd yma ar draws yr afon; un i gamu arni, a'r llall i afael ynddi tra'n croesi! Ond ar y mapiau Ordnans cynnar mae 'footbridge' wedi ei chofnodi. Sut fath o bont droed oedd hi tybed?

Y cyfeiriad cyntaf at yr enw yw 1880, pan foddodd un o weithwyr Plas Glanrafon yno.

Ond pam yr enw? Mae'n ymddangos ei bod yn bosib croesi'r afon yma drwy lamu o un garreg i'r llall – ar ddwr isel mae'n debyg, ond fod angen naid go dda i arbed gwlychu!

**LLANRUG** Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

# Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb yn Llyfrgell Gwynedd, Caernarfon, gan Eryl, Islywydd y gangen. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan nifer o aelodau ac anfonwyd ein cofion anwylaf at rai sy'n teimlo'n sâl.

Ar Mai 14eg cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor. Arian rhag blaen o £22 os gwelwch yn dda.

Llongyferchir Mary Roberts a Meirwen Lloyd, y ddwy wedi eu henwebu gan nifer o ganghennau – Mary fel Isysgrifennydd Cenedlaethol a Meirwen fel is-Lywydd Cenedlaethol. Pob dymuniad da i'r ddwy.

Cafwyd orig ddifyr ac addysgiadol iawn yng nghwmni Nia ac Aled. Bu Nia yn darllen pytiau difyr o 6 llyfr diweddar gan ddechrau gyda nofel Tudur Owen 'Y S?' – nofel yn seiliedig ar stori wir, ond newidiwyd enwau, lleoliadau a ffeithiau i amddiffyn y diniwed! Er mai ffuglen yw'r stori mae'n seiliedig ar blentyndod yr awdur.

Yn y nofel 'Chwynnu' gan Sioned Wiliam, mae Sioned wedi creu cymeriadau a sefyllfaoedd sy'n argyhoeddi ac yn adrodd stori sy'n difyrru ac yn gadael y darllenydd yn fodlon ar y diwedd. Yn ôl adolygiad yn Y Cymro 'Mae'n adrodd y stori am Dylan Morgan â llygaid a chlustiau craff a cheir miniogrwydd yn y dychan a'r hiwmor sy'n britho'r gyfrol. Nofel i'w mwynhau wrth ymlacio a'ch traed i fyny yw hi.'

Cyfrol arloesol sy'n ymdrin â iechyd meddwl yw 'Gyrru drwy Storm' – stori gyffrous a hynod ddarllenadwy. Cawn hanes profiadau 11 o bobl, yn eu geiriau eu hunain, sydd wedi cael eu heffeithio mewn cerddi, llythyrau, dyddiaduron ac ysgrifau – mae'r profiadau yn ddirdynnol ond yn dangos bod modd gwella a bod yn llawn gobaith.

Nofel gynnil, delynegol a'r mynydd a'i dymhorau yn gymeriadau amlwg ynddi yw'r nofel 'Y Bwthyn', gan Caryl Lewis. Mae'n codi gwestiynau yngl?n â pharhad ffordd o fyw, Cymreictod a'r syniad o berthyn.

Stori gyffrous a hynod ddarllenadwy sydd wedi'i seilio ar ffeithiau go iawn am gyfnod creulon a chythryblus yn ein hanes gan Bethan Gwanas yw 'Botany Bay' – hanes bywyd Ann Lewis, 18 oed yn Nolgellau 1833.

Yn ôl adolygiad Arthur Thomas yn Llafar Gwlad, mae'r hunangofiant 'Yr Hen Ddyddiadur' gan John Pierce Jones yn un 'hir ddisgwyliedig'. Aiff â ni yn ôl i'w gychwyniad yng nghymdeithas wledig Niwbwrch gyda'i chyfoeth iaith ac arferion amaethu. Mae'n adrodd hanes ei gyfnod yn Lloegr a chawn ei hanes yn y coleg cyn mentro i actio. I gloi ceir hanes ei fab mabwysiedig, Iwan, bachgen bach o Haiti. Oes mae diweddglo hapus iawn i'r gyfrol, sydd wedi'i britho â storiau doniol. Cydnabyddir adolygiadau i'r cyfrolau oddi ar y we a chylchgronau cyfredol.

Wedi'r darlleniadau difyr gan Nia dilynwyd gyda gwybodaeth o Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd gan Aled Gwyn. Gellir dilyn Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd ar wyneblyfr (facebook) a thrydar i gael gwybod beth sy' mlaen. Gellir gofyn am rif pin i gael Catalog Ar-lein – http://capitadiscovery.co.uk/gwynedd i gael mynediad i'ch cyfrif lle gallwch adnewyddu a gwneud ceisiadau am eitemau am ddim megis llyfrau, e-lyfrau i oedolion, plant a phobl ifanc, e-gylchgronau ac e-lyfrau llafar. Gellir holi hefyd am Wi-Fi, sesiynau cyfrifiadurol, ffilmiau diweddaraf ar DVD, Amseroedd stori i blant, Gwefannau Hel Achau, Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref.

Mae'r llyfrgell yn ychwanegu teitlau newydd yn rheolaidd a gellir galw heibio yn aml a manteisio i'r eithaf ar aelodaeth o'r llyfrgell.

Diolchwyd i Nia ac Aled am noson hynod o ddifyr ac addysgiadol gan Eryl.

Ar Fawrth 8fed byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi. Bydd bwyd 'bys a bawd' ar gael a syrpreis bach ac amser i gymdeithasu. Aelodau'r Pwyllgor i'r Sefydliad erbyn 7 o'r gloch os gwelwch yn dda.

**Talu am yr Eco** A gaf eich atgoffa yn garedig y bydd tâl blynyddol am yr Eco yn cael ei gasglu mis Mawrth yma. Tâl am y flwyddyn fydd £7.00.

**Diolchiadau** Dymuna Menna a theulu Minffordd ddiolch o galon i bawb am eu negeseuon a'u rhoddion yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Mrs Betty Parry yn Warrington ar y 9fed o Chwefror.

**Cydymdeimlwn** â chi fel teulu, Menna.

**Profedigaeth** Cydymdeimlwn yn fawr â Brian a Sandra Parry, Glanffynnon a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iawn yng Nghaernarfon.

Hefyd anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Hefina Jones, 8 Rhes Rhug a'i chwaer, Valmai Williams, Deiniolen. Maent wedi colli eu chwaer, Eileen, oedd yn byw ym Mhorthaethwy.

**Plaid Cymru** Enillwyr Clwb Cant Mis Ionawr: 1. Mrs Olwen Hughes; 2. Mrs Eurwen Rowlands.

**Pen-blwydd Hapus** Dymuniadau gorau i Mrs Annie Ceinwen Norman, Copper Beeches, Ffordd Glanffynnon, fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed ar yr 2il o Fawrth. Llongyfarchiadau mawr.

**Llongyfarchiadau** i Gwennie a Dafydd Pritchard, Nant y Glyn ar enedigaeth eu mab bach, Lleu, ŵyr bach i'r Parchedig John a Mrs Falmai Pritchard, Llanberis.

**Pen-blwydd Arbennig** Dymuniadau gorau i Mr Idwal Williams, Disgwylfa a Mr Geraint Parry , Bro Dawel – y ddau wedi dathlu newid degawd yn ystod mis Chwefror.

**Capel y Rhos**

Braf oedd cael croesawu Mr Hywel a Mrs Susan Williams i'r oedfa. Maent wedi symud o Gaergybi ac wedi ymgartrefu yn 5 Pen y Cae, Llanrug. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd ac ym mhentref Llanrug.


**Oedfaon mis Mawrth**

6: Y gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson a chynhelir Gwasanaeth y Cymun

13: Y Parch Gwynfor Williams, Caernarfon

20: Y gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson

27: Y Parch Harri Parri, Caernarfon.



# Cymdeithas Strôc

Cynhaliwyd noson o wirio pwysau gwaed a chodi ymwybyddiaeth o strôc ar nos Sadwrn, Ionawr 23 yn y Co-op yn Llanrug.

Trefnwyd y digwyddiad gan Sheila Roberts fel rhan o gynllun Gwaith Cymunedol y Co-op i gyd-fynd â Diwrnod Santes Dwynwen. Gwahoddodd Sheila y Gymdeithas Strôc i'r Co-op gan mai un o'r prif ffactorau risg sy'n ymwneud â strôc yw ffibriliad atrïaidd, neu guriad calon afreolaidd, fel y'i gelwir yn fwy cyffredin, a oedd yn amserol o ystyried mai thema Santes Dwynwen yw calonnau a blodau.

Cafodd raffl Santes Dwynwen ei drefnu gan Sheila, ei merch Donna a staff y Co-op ac, yn sgil hyn a rhoddion a godwyd yn ystod y noson, cyflwynwyd £164.80 i'r Gymdeithas Strôc.



Yn ystod y noson gwiriwyd pwysau gwaed 22 o bobl, yn cynnwys pwysedd gwaed y Cynghorydd lleol. Dywedodd y Cynghorydd Charles Jones 'Fel cyn wirfoddolwr y Gymdeithas Strôc rwyf wedi gweld yn uniongyrchol yr effeithiau dinistriol y gall strôc ei gael, nid yn unig ar yr unigolyn, ond hefyd ar y gofalwyr a'r teulu. Rwy'n falch iawn o gefnogi'r Gymdeithas Strôc ac yn credu bod codi ymwybyddiaeth ar lefel leol yn wych.'

Dywedodd Llinos Wyn Parry, Pennaeth Gwasanaethau Strôc Gogledd a Chanolbarth Cymru, 'Os oes gennych bwysedd gwaed uchel ac nid yw'n cael ei drin a'i gadw o dan reolaeth, mae'n cynyddu eich risg o gael strôc. Yn wir, pwysedd gwaed uchel yw'r ffactor risg unigol mwyaf ar gyfer strôc, yn achosi tua 50 y cant o strôc. Mae mesur eich pwysedd gwaed yn gyflym, syml a di-boen, a gall atal strôc os caiff ei nodi a'i drin yn gyflym.

Ar ran y Gymdeithas Strôc hoffwn ddiolch i'r Co-op am y gwahoddiad ac i drigolion Llanrug a'r cyffiniau am y gefnogaeth a ddangoswyd yn ystod y digwyddiad.'

# Gwau Eirth



Rhai o ferched Llanrug sy'n cyfarfod yn Y Sefydliad Coffa ar brynhawn Mercher rhwng un a thri o'r gloch i wau 'tedi bers'. Mae'r eirth bach gwlan yn cael eu hanfon ymlaen ielusen o'r enw "Dress a Girl around the world". Pwrpas yr elusen yw casglu dilladau addas i enethod difreintiedig mewn gwahanol rannau o'r byd. A'r tedi bêrs? Anrhegion bach i'w gosod ym mhocedi rhai o'r dilladau.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno efo'r criw yn Llanrug – mae paned a sgwrs i'w cael. Ond cofiwch ddod a'ch gweill efo chi!

# Ymweliad Haf Thomas a Chaerdydd






Haf gyda'i harwr Matthew Stevens ym Mhencampwriaeth Snwcer Agored Cymru yng Nghaerdydd. Haf yn mwynhau yng Nghaerdydd Yn dilyn ymddangos ar y rhaglen 'Diolch o Galon' a welwyd Noswyl Nadolig ar S4C, derbyniodd Haf gydnabyddiaeth am ei gwaith diflino yn codi arian at elusennau. Cafodd dreulio diwrnod yn ymweld â set Pobol y Cwm a mynychu Gornest Pencampwriaeth Snwcer Agored Cymru. Yn goron ar y cyfan cafodd gyfarfod ei harwr, ie, Mathew Stevens! Rhywbeth i'w drysori.

# WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Clwb 300** Enillwyr Clwb 300 am fis Ionawr oedd: £30: Mrs Olwen Owen, 23 Tref Eilian; £20: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn; £10: Mrs Pearl Williams, Parc.

**Sefydliad y Merched** Yn y cyfarfod ar Ionawr 7fed croesawodd y Llywydd yr aelodau yn ôl wedi gwyliau'r Nadolig. Roedd yn falch o allu dweud fod Wenna yn teimlo'n well a dymunodd lwyr adferiad iddi yn fuan. Prynhawn dan ofal rhai o'r aelodau gawsom ni, a dangosodd rhai ohonynt y crefftau yr oeddynt hwy â diddordeb ynddynt. Roedd Joy yn hoffi nyddu a gwneud eitemau fel clustogau gyda'r gwlân. Rosie wedyn yn cwiltio a dangosodd hithau beth o'i gwaith. Gwneud doliau gyda defnyddiau (rag dolls) a brodwaith cywrain iawn mae Margaret ac mae wedi cael gwobrau am y gwaith mewn sioeau. Teimlai'r aelodau fod yna ddawn arbennig ymhlith yr aelodau. Diolchodd y Llywydd iddynt am eu gwaith.

Ym mis Chwefror croesawodd y Llywydd y Barchedig Gwenda Richards i'r cyfarfod fel ein gwraig wadd. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi, gyda sleidiau, yn dangos rhai o'r cardiau post sydd ganddi wedi eu casglu ers blynyddoedd. Rhai o amser y Diwygiad 1904-05 hyd yn oed. Mae'n agoriad llygad gweld sut mae pethau wedi newid yn ystod y blynyddoedd yn y math o gardiau sy'n cael eu cynhyrchu. Diolchodd Pat iddi am ei sgwrs.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 3ydd pryd y bydd plant yr ysgol yn ein diddanu i ddathlu Gŵyl Dewi.

**Diolch** Dymunwn ddiolch i Swyddogion Eglwys y Waun am gael mynediad i'r festri ar gyfer rhannu copiau o'r Eco ar gyfer pentrefi'r ardal.

**Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Mawrth**

Bore Sul am 10 o'r gloch
6: Parch Huw Pritchard
13: Parch Eric Jones
20: Pasg – Oedfa Deulu
27: Parch Gwenda Richards

Ni fydd disgyblion yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn ystod gwyliau ysgol.

**Ymddiheuro** Ymddiheuraf i Catrin Gwyrfai am beidio diolch iddi am gyfeilio i'r canu Carolau cynulleidfaol yn ystod noson goleuo'r goeden Nadolig.

**Priodas** Estynnwn ein llongyfarchion i Llŷr, Ty'n Cae, ar ei briodas â Siân Alaw o Lanfaglan. Dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc. Maent wedi ymgartrefu yn Stad Tŷ Hen.

**Pen-blwydd Arbennig** Yn ystod mis Chwefror cyrhaeddodd Lowri Jones, Bryn Derwen, a Meleri Law, Cyrnant Lodge, eu pen-blwydd yn 18 oed. Hefyd bu Chris Legget, Bryn Rhian, yn dathlu cyrraedd ei 21ain mlwydd oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r tri ohonynt.

**Yr Urdd** Daeth yn amser Eisteddfodau'r Urdd. Llongyfarchiadau i bob un fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a phob dymuniad da i'r rhai fydd yn cynrychioli'r cylch yn y Steddfod Sir y mis yma.

**Adref o'r Ysbyty** Croeso adref o Ysbyty Gobowen i Trefor Beech, Bronallt, wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yno.

Bu Ceri Ann, Stad Bro Waun, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Croeso adref hefyd i Carys Owen, Glyn Awel, ac i Nans Hughes, Stad Croes y Waun.

Anfonwn ein cofion atoch a gobeithiwn eich bod yn cryfhau ac yn gwella bob dydd.

**Yn yr Ysbyty** Anfonwn ein cofion at Mr Gwynedd Williams, Bro Waun, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd ac at Nansi, sydd wedi cael anaf drwy anffawd yn ei chartref.


Cofion hefyd at bob un o'r pentref sydd ddim yn dda ac yn gaeth i'w cartref.

**Cydymdeimlo** Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Mr Dafydd Parry, adref yn ei gartref yn Bro Waun. Cydymdeimlwn yn ddwys â Karen, ei ferch ac â'i feibion Brian, Clifford a Kevin a'r teulu yn eu profedigaeth a'u galar.

**Diolch** Dymuna Lowri a Siôn, Preswylfa, ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddiad.

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Richard Sharpe a theulu Llifon, Teras Glynafon, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt.







# *Côr Meibion Caernarfon*

Cyflwyno siec am £500 i elusen ganser Macmillan




*Cyflwyno siec am £500 i Macmillan – chwith i'r dde: Edwin Williams, Gareth Thomas, Eleri Brady (Rheolwr Codi Arian Macmillan Gogledd Cymru), Douglas Williams, Delyth Humphreys (Cyfarwyddwr Cerdd) a Mona Meirion Richards (Cyfeilydd y Côr).*

Yng nghinio blynyddol Côr Meibion Caernarfon yng Ngwesty'r Celt Caernarfon casglwyd £500 i elusen ganser Macmillan. Ac mewn ymarfer diweddar cyflwynwyd siec am y swm hwnnw i Eleri Brady, Rheolwr Codi Arian Macmillan Gogledd Cymru.

Trefnwyd yr ocsiwn a'r raffl lwyddiannus yn y cinio blynyddol gan Douglas Williams a Gareth Thomas o adran y tenoriaid uchaf, gyda chymorth y bariton Edwin Williams.

Wrth ddiolch i'r côr dywedodd Eleri Brady, "Bydd pob ceiniog yn mynd tuag at waith Macmillan yng Ngogledd Cymru. Rhwng pob dim, mae'n costio tua £27 yr awr i gyflogi nyrs Macmillan ac mae gennym dros 50 nyrs yn gweithio yng Ngogledd Cymru a Chanolfan Wybodaeth yng nghyntedd Ysbyty Gwynedd, Bangor."


Meddai Delyth Humphreys, Cyfarwyddwr Cerdd Côr Meibion Caernarfon, "Mae Doug, Gareth ac Edwin yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod hefyd yn codi arian at achosion da wrth fwynhau ein hunain yn gymdeithasol. Braf oedd medru cydnabod gwaith ardderchog Macmillan eleni."




ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr








Gwenllian Williams, Shannon Marie Owen, Celine Roberts, Elin Owen, Rhea Griffiths.
Absennol o'r llun oedd Ceinwen Jones, Katie Lloyd, Ellie Williams.

Dyma griw o fyfyrwyr cydwybodol a phrysur o flwyddyn 12! Mae bob un ohonynt wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn gwirfoddoli yn y gymuned ac wedi ennill tystysgrif gwirfoddoli 'Gwirfoddolwr y Mileniwm' gan Gwenllian Dafydd o Mantell Gwynedd. Mae rhai wedi gwneud 50 awr o wirfoddoli ac eraill wedi cyrraedd 100 awr a 200 awr!Rydym yn hynod falch o'r criw yma ac yn sicr fod eu gwaith gwirfoddol gyda nifer o wahanol asiantaethau yn gwneud gwahaniaeth mawr yn eu cymunedau lleol. Da iawn chi, genod!

## Osian a Lisa



Nôl ym mis Hydref 2015 lansiwyd cynllun Patagonia 2016 gan Urdd Gobaith Cymru. Bwriad y cynllun yw gwahodd ugain o ddisgyblion chweched dosbarth Cymru i ymweld â'r Wladfa a chyfrannu at yr addysg a'r diwylliant Cymreig yno. Mae gan Ysgol Brynrefail gysylltiad agos gyda'r cynllun hwn gyda disgyblion wedi llwyddo i sicrhau eu lle ymhob taith dros y pedair blynedd ddiwethaf. Eleni, bydd Osian Edwards o Lanrug, a Lisa Hughes o Fethel, yn ychwanegu at y rhif hwn. Wedi cystadleuaeth frwd, derbyniodd y ddau y neges eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais, ac felly, mae'r gwaith mawr wedi dechrau! Mae gan y ddau ohonynt nod o godi £2,400 yr un er mwyn talu'r costau teithio, ond yn anad dim, er mwyn gallu prynu offer ar gyfer Ysgol Gymraeg y Gaiman. Maent eisoes wedi dechrau ar y gwaith gydag amrywiol weithgareddau wedi'u trefnu. Y digwyddiad nesaf ar y calendr yw noson flasu gwin yng Neuadd Goffa Llanrug, a hynny ar Fawrth 4ydd. Y mae trefniadau hefyd ar y gweill i gynnal gig, cyngerdd, ocsiwn a thaith noddedig i gopa'r Wyddfa, felly os hoffech gefnogi'r ddau mewn unrhyw fodd, yna cysylltwch ag Osian (07428178237) neu Lisa (07794378015).






**Mae Angharad Joyce Jones wedi ennill y brif wobr drwy Ogledd Cymru am ddylunio poster gwrth-yfed a gyrru drwy waith yr Adran Gelf. Da iawn hi.**

*Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd) a Paula Owen (Swyddog Diogelwch y Ffyrdd) yn cyflwyno gwobr ariannol iddi.*

## "Dod â Siwan y Fyw" - Pontio



**Ganol mis Chwefror cafodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 12 y fraint o ymweld â chanolfan Pontio ym Mangor i wrando ar arbenigwyr yn eu meysydd yn trafod drama Siwan. Y mae'r ddrama oesol hon gan Saunders Lewis yn rhan o faes llafur y cwrs Cymraeg, felly braf oedd gallu eistedd mewn cadeiriau cyfforddus yn Theatr Bryn Terfel yn gwrando ar Yr Athro W. Gwyn Lewis, Ffion Dafis a Maureen Rhys yn cael eu holi am eu cysylltiadau a'u profiadau hwy gyda'r ddrama. Roedd sylwadau pob un o'r cyfranwyr yn wirioneddol werthfawr, ac roedd eu brwdfrydedd ynghylch y ddrama yn dryloyw. Ond, fe sicrhaodd Maureen Rhys ei lle yng nghalonnau pob un fu ar y daith, a hynny am ei hieuenctid di-derfyn a'i chymeriad heintus. Gwibiodd y sesiwn a gadawodd pob un yn sicr fod y profiad wedi bod yn un buddiol. Y daith nesaf? I Langefni i wylio Cwmni'r Theatr Fach yn llwyfannu 'Siwan' ddechrau Mawrth.**

# Croeso i deuluoedd Cymraeg i Gaerdydd





Annwyl Gyfaill
Dydd Sadwrn, Chwefror y 6ed, agorwyd Creche newydd Mudiad Meithrin yng nghanolfan yr Hen Lyfrgell, Caerdydd.
Dwi'n atodi ychydig o luniau o'r agoriad swyddogol dydd Sadwrn diwethaf i chi. Dwi'n ymwybodol efallai bod Caerdydd yn bell i rai ohonoch, ond credai'r Mudiad bod hwn yn adnodd arbennig i bawb o bobl Cymru sydd yn ymweld â Chaerdydd adegau rygbi, i siopa neu wrth ymweld â theuluoedd.
Beth bynnag, yn ychwanegol i agoriad y crèche, lansiwyd anthem newydd y Mudiad hefyd. Mae hi i'w chlywed yn llawn ar ein gwefan trwy ddilyn y linc.
Diolch am gefnogi gwaith Mudiad Meithrin
Arawn







# Lansio Cyfranddaliadau yn Llanberis








# Ysgol Dolbadarn





**Twrnament Pêl Rwyd**- bu genethod Blwyddyn 5+6 yn cystadlu mewn twrnament yng Nghaernarfon yn ddiweddar yn erbyn ysgolion eraill yn Arfon. Bu sawl gem galed ond yr oedd y genod yn gwella ym mhob gem. Da iawn chi genod a diolch am eich hymroddiad.

**Dawns I Bawb**
Mae plant y Dosbarth Derbyn yn derbyn sesiynau Dawns I Bawb y tymor hwn ac yn mwynhau yn fawr iawn. Braf iawn yw gweld cyn-ddisgybl yn eu hyfforddi hefyd sef Elin Morris.

**Gwasanaeth**
Bu Carol Roberts ac Andrew Settatree yn yr ysgol yn cynnal gwasanaethau yn ddiweddar- diolch yn fawr i'r ddau – mae'r plant yn mwynhau gwrando arnynt.

**Heddwas**
Bu PC Dylan mewn sawl dosbarth y tymor hwn yn trafod nodweddion pwysig megis bwlio ac ymddygiad anghymdeithasol. Mae'r plant yn mwynhau y sesiynau yn fawr ac yn deal y negeseuon pwysig a gyflwynir iddynt.

**Dringo**
Bu sawl disgybl o'r ysgol wedi bod yn dringo mewn cystadlaethau yn ddiweddar. Maent i gyd wedi llwyddo yn arbennig yn dda a bydd ambell un yn cael mynd i'r gystadleuaeth nesaf. Daliwch ati!

**NSPCC**
Bu cynrychiolaeth o'r NSPCC i'r ysgol i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 5+6 yn ddiweddar er mwyn trafod trais yn y cartref a sut i gadw yn ddiogel yn y cartref, ysgol ac yn y gymdeithas. Yr oedd y disgyblion yn cyfrannu mewn modd aeddfed a synhwyrol iawn i'r sesiynau.

**Diolch**
Dymuna'r ysgol ddiolch am gyfraniad hael pwyllgor Y Ganolfan tuag at weithgareddau Nadolig yr ysgol eleni. Yr oedd y Disgo yn llwyddiant aruthrol a chafwyd elw da i gronfa'r ysgol. Diolch o galon.

## Cyfeillion Plas Pengwaith.

**Cafwyd cyfle i edrych yn ôl ar y gweithgareddau yn arwain at y Nadolig a chynllunio gweithgareddau dechrau 2016.**

**Derbyniwyd adroddiad y Trysorydd yn dangos bod y Cyfeillion wedi derbyn rhoddion hael**

**iawn yn ystod diwedd 2015 ac mae ein diolch yn fawr i'r ardal gyfan am eu cefnogaeth.**

**Trefniadau ar dro i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a'r Pasg yn y Cartref.**

**Wrth adrodd am ddigwyddiadau y Cartref dywedodd Sian Evans, Y Rheolwraig, fod y**

**Cartref a Cyfeillion Plas Pengwaith wedi cyrraedd rhestr fer "Cyngor ar ei Orau" eleni.**

**Gwyliwch am y canlyniadau.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf 23 Mawrth 2016 am 2 o'r gloch yn Mhlas Pengwaith. Croeso cynnes**

**i bawb.**

## Stella Wynne Owen

*Teyrnged i berthynas a ffrind arbennig*

Ganwyd Stella yn y pedwardegau yn ferch i'r diweddar Wini a Jonah Owen, chwaer annwyl i'r diweddar Edith a Goronwy, ac i Nansi sydd bellach yn byw yng Nghanada, gynt o Dolwyn, Maes Padarn. Roedd hefyd yn wyres i'r diweddar Charles Jonah Owen, cyn arweinydd sawl côr enwog yn Llanberis yn y tri a'r pedwardegau. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail, un o'r criw cyntaf i fynychu'r ysgol newydd yn Llanrug.

Wedi cwblhau ei gyrfa golegol yng Nghaerdydd, ymsefydlodd yn y ddinas ac yn ddiweddarach ymgartrefodd yng Nghastell Nedd, lle magwyd dau o feibion, Jonathan ac Andrew, gydag Andrew yn cario mlaen draddodiad cerddorol y teulu yn ei swydd fel pianydd proffesiynol yn Llundain.

Bu Stella'n ffyddlon iawn i'w theulu, fel merch, chwaer mam a nain gariadus. Fe gadwai gyswllt agos â'i chwaer Nansi a'i theulu yng Nghanada gan ymweld â hwy mor aml â phosibl. Fe sicrhâi fod blodau'n cael eu gosod ar fedd ei rhieni yn Nant Peris yn gyson.

Roedd yn ffrind ffyddlon i rai o'i chyn gyd-ddisgyblion o'r blynyddoedd cynnar gan gadw cysylltiad am oddeutu deng mlynedd a thrigain.

Roedd ei phentref genedigol yn agos iawn at ei chalon. Fe dderbyniai Eco'r Wyddfa yn rheolaidd bob mis ac fe gysylltai'n wythnosol i holi am drigolion a'r newyddion diweddaraf o 'Hen Bentra Bach Llanbêr'.

Fe'n gadawodd ar yr unfed ar ddeg o Chwefror yn dawel yng nghwmni ei theulu.

Cofion annwyl iawn amdani. Cysga'n dawel, Stel.

Gwyn

## *Parhad* LLANBERIS

**OEDFAON CAPEL COCH**

Mawrth 6ed: 10yb Parchedig Harri Parry

Mawrth 13eg: 10yb Gweinidog; 5yh Oedfa MOLI

Mawrth 20fed: 10yb Mr Euron Hughes

Mawrth 27ain: 10.30yb Oedfa Deulu

Ebrill 3ydd: 10yb Mr John H. Hughes; 5yh Oedfa

Ebrill 10fed: 10yb Gweinidog; 5yh Oedfa MOLI

Ebrill 17eg: 10yb Mr Huw Tegid Roberts; 5yh Parti Bytholwyrdd

Ebrill 24ain: 10.30yb Oedfa Deulu.

**EGLWYS SANT PADARN-GWASANAETHAU'R PASG**

Dydd Iau Cablyd, 24.3 – Yr Offeren am 7 o'r gloch

Dydd Gwener Groglith, 25.3 – Litwrgi'r Groes am 2 o'r gloch

Dydd Sul Pasg, 27.3 – Yr Offeren a Bedydd Sanctaidd am 11 o'r gloch

**Marwolaeth** Ar yr 11eg o Fawrth bu farw Stella Wynne Owen, merch i'r diweddar Jonah a Winnifred Owen, 42 Maes Padarn, Llanberis.

**Dymuna** Eileen Roberts, 83 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl alwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac wedi dod gartref. Diolch yn fawr i bawb.

**Dymuna** Eileen a'r teulu oll ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli g?r, tad, taid a hen daid.

Diolch i staff Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri a Plas Pengwaith am eu gofal dwys.

Diolch arbennig i'r Parchedigion John Pritchard, Trefor Lewis a Marcus Robinson am eu rhan yn y gwasanaeth ac i Arwel Jones am ei deyrnged garedig; i Bethan Holding am fod wrth yr organ ac i Gwynfor a Jane o E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr a pharchus.

Gwerthfawrogir y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Apêl Ambiwlans Awyr Cymru a Thŷ Gobaith.

**Cyfeillion Plas Pengwaith** Enillydd y Bel Bonws am fis Ionawr oedd Diane Hughes-Jones, Hendyglas.

## *GWEITHGAREDDAU GWYL FFILMIAU LLAMFF*

MEWN CYDWEITHREDIAD A LLAMFF A'R PARC CENEDLAETHOL

GWENER 4 MAWRTH 6yh

SGWRS A TAITH GERDDED YN Y TYWYLLWCH (3 milltir)

CYCHWYN: YHA PEN Y PASS

Sgwrs byr ar y trychinebau ac anturiaethau o dynnu lluniau yn y nos ac yna taith ar hyd Llwybr PYG i Lyn Llydaw i ddarganfod y gofod (os yn glir), neu'r tirwedd os ddim. Cofiwch ddod a camera. Os bydd yn bwrw, cawn sgwrs am y llyfr 'Y SER YN EU TYNERWCH' (casgliad o ffotograffau'r nos).

Dewch a ffagl. Lle i 15 yn unig felly mae angen archebu eich lle.

SADWRN 5 MAWRTH 10.00yb

HANESION CWM BRWYNOG (3½ milltir)

CYCHWYN: MYNYDD GWEFRU, LLANBERIS

Hanesion o'r Oesoedd Canol i'r Ail Ryfel Byd (ac ambell sgandal ar hyd y ffordd) wrth i ni ddiddanu o lwybr Llanberis i'r Wyddfa. Taith bryniog gyda llwybrau. Dewch a picnic.

SUL 6 MAWRTH 2.00yp

HANESION A CHWEDLAU LLANBERIS (2½ milltir)

CYCHWYN: CANOLFAN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN, STRYD FAWR, LLANBERIS

(NESAF I'R LAUNDERETTE)

Addas i deuluoedd, pramiau a gadeiriau olwyn.

CYSYLLTWCH:

GARETH ROBERTS


**Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau**



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
**Sion Roberts 07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

ECO'r *Wyddfa* Cefnogwch ein hysbysebwyr

**KERFOOTS** EST 1874
136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW
Dewch draw ir Siop am sbec – mae rhywbeth I bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.
===============
**DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.**
**(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)**
==============
www.kerfoots.com enquiries@kerfoots.com
Tel: 01766 512256

**WAVELL'S**
Bryn Ac Angela Williams
**London House LLANRUG**
**PEN CIGYDDION Y FRO**
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
*MYNWCH Y GORAU*
*DEWCH ATOM NI!!*
(01286) 673574



**ORIEL CWM**
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artisiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs- (01286) 870882

**Ysgol Gymuned Penisarwaen**

**Eisteddfod yr Urdd 2016** - Mae'r plant wedi bod yn brysur yn paratoi at wahanol gystadlaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Gylch.

Daeth Mr Andrew Settatree ar Parch Carol Roberts i gynnal Gwasanaeth Boreol yn yr Ysgol dydd Iau, Ionawr 28ain. Diolch iddynt am roi eu hamser i ddod atom yn achlysurol.

**Ymweliad** - Croesawyd PC Dylan Pritchard i'r ysgol fore dydd Mercher, Chwefror 3ydd, i sgwrsio gyda'r plant.

**Gŵyl Athletau Dan Do** - Aeth rhai o ddisgyblion Bl 4, 5 a 6 i gymryd rhan yn yr Athletau a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon dydd Mercher, Chwefror10fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad a gwneud eu gorau.

**Noson Disco** – Cynhaliwyd noson disco St Ffolant nos Iau, Chwefror 11eg, gan Bwyllgor"Cyfeillion" yr Ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau'n arw, gyda diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r noson.

**Gala Nofio** – Aeth nifer o blant yr ysgol i gymryd rhan yn y gala dydd Mercher, Chwefror 24ain.

**Dathlu** -Byddwn yn dathlu dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth 1af. Bydd y Plant yn cael cyfle i ddod i'r Ysgol mewn gwisg Gymreig. Byddwn yn cael cinio blasus cig oen Cymreig. Am 2 o'r gloch y prynhawn byddwn yn dathlu gyda'r Gymuned. Mae'r Pwyllgor Neuadd wedi trefnu te bach gyda phaned a chacennau a bydd yr adloniant yng ngofal rhai o blant yr Ysgol. Croeso i bawb ymuno â ni.

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen**

**Pêl Bonws Loteri** - Enillydd Mis Ionawr oedd Mr Henry Jones 25 Bryn Tirion gyda rhif 42. Llongyfarchiadau!

**Cydymdeimlad** – Anfonwn ein cydymdeimlad â theulu Penpwllcoch yn eu profedigaeth ddiweddar o golli brawd Ellen, sef Richard o Ynys Môn.

**Ganwyd** merch fach i Mr Rees a Debbie yn ddiweddar. Croeso mawr i Catrin Elen a llongyfarchiadau i'r teulu gan bawb yn yr ysgol.

**Gyrfa Chwist** Cynhelir Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fawrth am 7.30yh

**Bingo Arian** Cynhelir Bingo arian yn neuadd yr Eglwys nos Fercher, 9fed a 30ain o Fawrth. Noder y newid o'r pedwerydd i'r pumed nos Fercher.

**Ysgol Sul Bosra** Wedi mwynhau canolbwyntio ar y thema 'Saint Enwog', fel Santes Dwynwen, Sant Ffolant a'n Nawddsant, Dewi, edrychir ymlaen i gael cwmni Andrew Settatree a chychwyn gweithgareddau'r Pasg. Rydym y mis hwn eto yn anfon ein cofion anwylaf at ein Harolygwr, Evie Jones.

Anfonir ein llongyfarchiadau i William Lamb, cyn-aelod ffyddlon o'r ysgol Sul ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol, William, gan bawb ohonom yn yr ysgol Sul.

**Croeso** Estynnir croeso i Julia, 10 Llys y Gwynt, y mae'n dysgu Cymraeg ac yn awyddus i brynu'r Eco yn fisol. Y mae croeso mawr iddi ymuno yng ngweithgareddau'r pentref.

**Talu am yr Eco** Bydd Ann Ifans yn casglu tâl am yr Eco yn Llys y Gwynt, Bryn Eglwys ac eraill wrth ddosbarthu rhifyn Mawrth. Y tâl yw £7 am flwyddyn. Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

**Pwyllgor Neuadd** Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr lwcus oedd 1. Pat Larsen, Llygad yr Haul; 2. Lynne Elias, Ffrwd Goch.

**Cynhelir Miri Mai** ar nos Iau, Mai 19, yn yr Ysgol Gymuned am 6.00 o'r gloch. Bydd stondinau, paned, c?n poeth a gemau amrywiol i'r plant. Cynhelir pwyllgor i drefnu'r noson ar nos Lun, Mai 9fed, am 7 o'r gloch gyda Phwyllgor Eisteddfod Bentref i ddilyn am 7.30.

**Pwyllgor Eisteddfod Bentref** Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar nos Wener, Gorffennaf 1af, yn y Neuadd Gymuned am 6.00. Bydd ymarferion yn cychwyn bob nos Lun wedi'r Sulgwyn.

**Achub y Plant** Dymunir diolch i'r Ysgol Gymuned ac aelodau Eglwys Santes Helen am eich cefnogaeth caredig yn codi arian tuag at yr elusen sy'n gweithio mewn dros 120 o wledydd ledled y byd. Rydym yn achub bywydau plant, ymladd dros eu hawliau ac yn eu helpu i gyflawni eu potensial.

Yng Nghymru, cefnogir plant a'u teuluoedd sydd yn byw yn rhai o'r ardaloedd tlotaf drwy ein rhaglen grantiau argyfwng, 'Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae' yn ogystal â phrosiect wyth wythnos sydd yn weithredol yn yr ysgol.


Drwy roddion rhai fel chi mae'r elusen wedi cyrraedd 15,400,000 o blant, ysgogi miliynau o bobl i gefnogi'r ymgyrch 'Ni Anwyd yr un Plentyn i Farw', gan helpu cyflawni datblygiadau mawr yn y frwydr yn erbyn newyn a sicrhau ymrwymiad hir-sefydlog y llywodraeth i wario 0.7% o'r incwm cenedlaethol ar gymorth.

Mae eich cefnogaeth yn ein helpu ni i sicrhau newid ym mywydau nifer o blant ac ni allwn ddiolch digon i chwi.

Diolch gan Ruth John, Rheolwr Codi Arian Rhanbarthol Cymru, Achub y Plant.

**Diolchiadau** Hoffwn ddiolch o galon i bawb oedd yn bresennol yng Ngwesty Dolbadarn dydd Sadwrn, 13eg Chwefror, i ddathlu fy mhen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Hefyd diolch am y nifer o gardiau, dymuniadau da ac anrhegion a gefais. Roedd yn syndod llwyr i mi ac roedd pawb, hyd yn oed fy chwaer, wedi cadw'r gyfrinach oddi wrthyf. Roeddwn yn falch iawn o weld cymaint o ardal Weinidogaeth Bro Eryri yn bresennol. Diolchaf yn arbennig i Carol, Wendy a phawb arall a drefnodd yr achlysur, hefyd Aneurin a'i staff am y bwffe ardderchog a drefnwyd, hefyd y gacen pen-blwydd mewn siâp nodyn cerdd. Fe barha'r achlysur yn atgof gyda mi am byth. Unwaith eto, diolch yn fawr i chwi oll.

William H. Munro




GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

## *Parhad* PENISARWAUN

**Eglwys St Helen's**
**Gwasanaethau Mis Mawrth**

Sul y Fam, 20: Cymun Bendigaid a bedydd
Gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid am 11yb pob dydd Sul

**Gwasanaethau'r Wythnos fawr a'r Pasg**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun, 21: | 6.30yh Hwyrol Weddi yn St Helen |
| Dydd Mawrth, 22: | 8yb Boreol Weddi yn Eglwys St Peris Nant Peris |
| Dydd Mercher, 23: | 10yb Cymun Bendigaid yn Eglwys St Padarn Llanberis |
| Dydd Iau Cablyd, 24: | 11yb Offeren y Crism Yn y Gadeirlan Bangor |
| | 7yh Cymun Bendigaid Eglwys St Padarn Llanberis |
| Dydd Gwener y Groglith, 25: | 2yp Awr Dawel yn St Helen |
| Dydd Sadwrn, 26: | 7yh Gwylnos y Pasg ac Offeren cyntaf y Pasg yn Eglwys St Peris Nant Peris. |
| Dydd Sul y Pasg, 27: | 11yb Cymun Bendigaid y Pasg. |

*Am fanylion pellach am wasanaethau yn Mro Eryri gwelir hysbysfwrdd yr Eglwys.*

KEVIN DAVIES
Plastrwr Profiadol
Pob math o waith cynnal a chadw - mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim
Ffôn: 01286 650655
Ffôn symudol: 07918733510
e-bost: kevindavies6287@gmail.com

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

## Un funud fach ...

# DEWI NEU DDEWI?

I rai, hollti blew fydd yr erthygl hon. Bydd eraill yn gweld y trafod ieithyddol yn ddiflas. Bydd y gweddill o bosibl yn meddwl mai mwydro ydw i! Ond waeth ots am hynny!

Beth fyddwch chi'n ei ddweud? 'Gŵyl Dewi' ynteu 'Gŵyl Ddewi'? Oes angen treiglo'r enw 'Dewi'? Pa un sydd gywir? Neu ydi'r ddau yn gywir? Oes yna unrhyw wahaniaeth rhwng y ddau? Oes ots o gwbl p'run bynnag?

Mi wn fod pobl fwy cymwys a gramadegwyr gwell na mi wedi trafod y mater. Mi wn hefyd fod yna filoedd o bobl yn defnyddio'r ddau derm heb boeni dim am ramadeg a phethau fel 'ymadrodd enwol' ac 'ymadrodd enwol dibynnol' a 'goleddfu'! Ond mi fentraf ddweud fy neud heddiw, ac awgrymu mai 'Gŵyl Ddewi' sydd orau. Y rheswm gramadegol (diflas o bosibl) dros ddweud hynny yw mai swyddogaeth ansoddeiriol sydd i'r enw 'Dewi' yma. Disgrifio'r Ŵyl a wneir wrth ddweud 'Gŵyl Ddewi', yn union fel y gwneir wrth ddweud 'gŵyl dda', 'gŵyl ddifyr' a 'gŵyl ddramatig'.


Mae 'Gŵyl Dewi', fodd bynnag, yn ddau ymadrodd enwol sy'n awgrymu neu'n cyfleu'r syniad mai Dewi sydd pia'r ŵyl, yn union fel y mae 'gŵydd Dewi' a 'gafr Dewi' a 'gardd Dewi' yn golygu mai Dewi sydd pia'r ŵydd a'r afr a'r ardd. Nid cadw gŵyl sydd, neu a arferai berthyn i Dewi Sant, na gŵyl yr arferai Dewi ei hun ei chadw a wnawn. Ansoddeiriol yw'r enw 'Dewi' yma, ac felly gŵyl yw hon sydd mewn rhyw ffordd yn 'Ddewiaidd' ei natur. Hynny ydi, gŵyl sy'n rhoi sylw ac yn dathlu'r union bethau yr oedd Dewi ei hun yn eu hanwylo yw hi.

Ond pa mor gywir bynnag yr eglurhad gramadegol hwn, mi ddaliaf mai 'Gŵyl Ddewi' sydd orau er mwyn osgoi'r syniad fod Dewi mewn rhyw ffordd yn berchen ar yr ŵyl. Nid ei ŵyl ef yw hi, ond gŵyl sy'n dyrchafu'r pethau a oedd yn bwysig iddo. Er cyn lleied a wyddom amdano, mentraf ddweud na fyddai Dewi ei hun wedi dychmygu y byddai Cymry'r unfed ganrif ar hugain yn cadw gŵyl yn ei enw. Go brin y byddai'r hen Dewi'n croesawu'r syniad o gadw gŵyl sy'n rhoi'r lle amlycaf iddo fo ei hun. Go brin hefyd y byddai'r dyn a ddywedodd wrthym am 'wneud y pethau bychain a chadw'r ffydd' yn orawyddus i bobl gadw gŵyl sy'n ei anrhydeddu ef.

Byddai'r dyn a dreuliodd ei ddyddiau'n pregethu'r Efengyl ac yn cenhadu dros Grist yn fwy bodlon â'r syniad o ŵyl sy'n rhoi'r sylw pennaf i'r pethau a oedd yn bwysig iddo fo: y ffydd a gofleidiai; yr Efengyl a gyhoeddai; y gred y galwai amdani; y pethau bychain a wnâi; y llawenydd yr oedd yn tystio iddo. Er cymaint a gyflawnodd Dewi, dyn a gredai mai ei Waredwr Iesu a ddylai gael y sylw pennaf oedd o.

A hyd nes y caf fy argyhoeddi'n wahanol, mi ddaliaf i gredu mai 'Gŵyl Ddewi' sy'n cyfleu hynny orau.

JOHN PRITCHARD


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

# Pencampwyr y Gymraeg o fewn ein cymunedau.



*Y Cynghorydd Sion Jones.*

Mae'r Cynghorydd Sion Jones o Fethel wedi derbyn cefnogaeth y Prif Weinidog, Carwyn Jones, i'w syniad o sefydlu 'Pencampwyr y Gymraeg' o fewn holl gymunedau gogledd Cymru. Meddai Sion mewn cyfweliad a'r "Eco":

"Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ansawdd yr Iaith Gymraeg ag addysgu pwysigrwydd yr iaith yn cychwyn o fewn ein cymunedau. Rwy'n falch iawn bod y Prif Weinidog wedi cadarnhau ei fod yn gefnogol i'r syniad o greu Pencampwyr yr Iaith Gymraeg drwy gymunedau Gogledd Cymru.

Rol wirfoddol fydd i'r pencampwr, yn cael ei ddewis gan y gymuned leol neu y cyngor cymuned/tref lleol i ddatblygu'r Iaith Gymraeg o fewn y gymuned, a sicrhau bod busnesau yn cael y cyfleoedd i wneud eu gwaith yn y ddwy iaith. Bydd y pencampwr hefyd yn cyd-weithio gyda'r ysgolion lleol i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn safonol, ac mewn ardaloedd ble nad oes llawer o Gymraeg, bydd y pencampwr yn arwain i sicrhau datblygiad a defnydd o'r Iaith, a chynyddu'r nifer o siaradwyr. Bydd y pencampwr hefyd yn gyfrifol am gyd-weithio gyda'r Cynghorau Sir lleol i sicrhau fod popeth yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ni fydd y cynllun yn golygu cost ariannol i'r Llywodraeth nac i'r Cynghorau.

Rhaid sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn cael syniadau newydd ar gyfer ei dyfodol, ac y mae hwn yn un o nifer o syniadau sydd gennyf i ddatblygu'r Iaith. Byddaf yn cael y cyfle i wireddu'r Cynllun hwn os caf fy ethol yn Aelod Cynulliad dros Arfon ym mis Mai. Dwi'n hynod falch o dderbyn cefnogaeth y Prif Weinidog gyda'r syniad hwn, ac edrychaf ymlaen am gael gweld y cynllun hwn yn dod yn realiti cyn diwedd eleni."




## Cynllun Cerdded A Darganfod Menter Fachwen

01286 870681

08767 810576

garethroberts754@yahoo.co.uk

CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MAWRTH 2016

TEITHIAU CERDDED MAWRTH 2016

GWENER 18 MAWRTH 1.30yp

HANESION LLANRUG (3 milltir)

CYCHWYN: CAE CHWARAE GLAN MOELYN, LLANRUG

EITHA HAWDD. AMBELL LWYBR. SGIDIAU CERDDED.

MERCHER 23 MAWRTH 1.30yp

500 MLYNEDD O HANES CWM Y GLO (1½ milltir)

CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y GLO.


HAWDD IAWN. ADDAS I BRAMIAU.

MAWRTH 29 MAWRTH 2.00yp

SEGONTIWM A'R RHUFEINIAID YNG NGHAERNARFON (1½ milltir)

CYCHWYN: AMGUEDDFA SEGONTIWM, CAERNARFON

GYDA CHYDWEITHREDIAD CADW. HAWDD.






ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 o Ionawr 2016

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Gwyndaf Hughes o Ynni Padarn Peris a amlinellodd gefndir y cwmni a'r bwriad i gychwyn cynhyrchu trydan drwy sustem 'hydro' ar yr Afon Goch yn Llanberis. Adroddodd ymhellach fod y cwmni wedi ei greu fel Cwmni Cydweithredol a fyddai'n trosglwyddo'r elw i elusen leol a fyddai'n cynnig grantiau i fudiadau lleol yn yr ardal.

Bydd cyfle i aelodau o'r cyhoedd fod yn rhan o'r cynllun drwy bwrcasu cyfranddaliadau am £250 yr un, hyd at uchafswm o £20,000. Bydd y buddsoddwyr yn cael un bleidlais yn y cyfarfod blynyddol a disgwylir talu llog i fyny i 5% yn flynyddol ar y buddsoddiad.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau i Mr Hughes am y cynllun a diolchwyd iddo am roi gwybodaeth am y cynllun.

Parcio

Adroddwyd fod problemau parcio yn parhau yng Nghwm y Glo ac yn Llanrug ac fe adroddwyd am leoliadau ble mae'r tramgwyddo mwyaf. Adroddwyd fod llythyr wedi'i anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn am bresenoldeb swyddog gorfodaeth parcio o dro i dro yn y pentrefi. Hefyd gofynnwyd am ystadegau o pryd mae'r swyddog wedi ymweld â'r ardal, gyda manylion o faint o ddirwyon sydd wedi eu cyflwyno. Ymateb Cyngor Gwynedd oedd y buasent yn cadw llygaid ar y sefyllfa. Penderfynwyd i estyn gwahoddiad i Mr Colin Jones, Rheolwr Parcio Cyngor Gwynedd, i fynychu cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned

Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth

Fe drafodwyd y cynllun yn fras a phenderfynwyd fod angen mwy o wybodaeth am ei oblygiadau. Adroddwyd fod cais wedi dod yn gofyn am wirfoddolwyr i sefyll gyda gwn mesur cyflymder yn ein Cymuned a fyddai yn cofrestru enghreifftiau o or-yrru, gyda'r manylion yn cael eu pasio i'r heddlu. Penderfynwyd, yn dilyn ymweliad gan PCSO i'r cyfarfod gryn amser yn ôl, ei wahodd yn ôl i adrodd ar y nifer a'r math o droseddau mae'r Heddlu wedi delio â hwy yn yr ardal yn ddiweddar. Cytunwyd y byddai hyn yn gyfle i'w holi mwy am y Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth

Swyddfa'r Bost

Yn dilyn sawl cwyn am leoliad y blwch post, cyfeiriwyd y pryderon at y Post Brenhinol. Maent wedi cydnabod fod angen ail leoli'r blwch post sydd ar wal siop Premier. Yn ei leoliad presennol, mae'n amharu ar olygfa'r traffig sydd yn troi allan o Ffordd Glanmoelyn i edrych i gyfeiriad Llanberis.

Praesept 2016 / 2017

Penderfynwyd, yn dilyn trafodaeth fanwl ac ystyried balans cyfredol y Cyngor, nod ac amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf ac oblygiadau toriadau Cyngor Gwynedd y bydd y Braesept yn codi o £24,000 i £25,000, hynny yw ychwanegiad o £1000.

Materion Cynllunio

'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i godi modurdy dwbl ar y tir gyferbyn â Tŷ Isaf, Ceunant,

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd bod cyflwr y llwybr rhwng Iard Carreg y Fron, sydd yn dod allan uwchben Allt Deg wedi dirywio yn ddiweddar ac nad yw yn bosib cerdded ar ei hyd. Adroddwyd ymhellach fod y llwybr rhwng Ffordd Llanberis a Ffordd Glanffynnon hefyd angen sylw.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i adrodd am y problemau gyda'r llwybrau ac i archebu map o lwybrau cyhoeddus.

Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ar Fil Drafft Llywodraeth Cymru - Llandudno

Oherwydd amseriad y cyfarfod, nid oedd aelod yn gallu mynychu oherwydd oblygiadau eraill ond gan fod y Clerc yn mynychu byddai yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

**RHOSTIO MOCHYN**
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU• PEN BLWYDD
BEDYDD• DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

**SAMARIAID**
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm


**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

**ECO'r Wyddfa**

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun

Nos Fawrth 2ail Chwefror 2016

Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Sion Jones, Elfed Williams, Richard Ll. Jones, Jane Pierce, Carolyn Roberts ac R. Hefin Williams.

Yn ystod y cyfarfod Croesawyd Anwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol o Gyngor Gwynedd.

Gweddi. Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

Gyda thristwch clywsom am golli Elspeth Mitcheson a fu am rai blynyddoedd yn gynghorydd cymunedol yn Rhiwlas. Cynhaliwyd yr angladd yr wythnos hon a chydymdeimlwn â Beth ac Anna, ei merched a'u teuluoedd. Talwyd teyrnged iddi gan Richard Ll. Jones, lle dywedodd ei bod hi gyda gweledigaeth o'r gwaith ac ei bod yn berson oedd yn gwneud popeth yn drylwyr tu hwnt ac yn weithgar iawn o fewn ei chymdeithas. Diolch am ei gwasanaeth.

Ymddiheuriadau. Phyllip Jones, Aled Green, Rhian Evans, Geraint Elis, Idris Thomas

Cofnodion cyfarfod 5ed Ionawr 2016.

Nododd Sion Jones mai 2 gyfyngiad parcio sydd yn Bethel nid 3. Fel arall, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cynllun Lliniaru Llifogydd – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu uwchraddio y system draenio dŵr wyneb presennol o flaen Tai Weirglodd, Cae Berllan a Tros y Waun ym Mhenisarwaun. Gobeithir dechrau ar y gwaith yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cyflwr Lôn yn dilyn Adnewyddu Tai Bryntirion – Derbyniwyd ymateb gan CCG y bydd y lôn yn cael ei atgyweirio i safon derbyniol unwaith y bydd y gwaith gwelliannau i'r tai ar y stad wedi eu cwblhau.

Biniau Halen – Rydym bellach wedi derbyn pris a chyflenwr fydd yn llenwi y biniau halen i ni y flwyddyn nesaf.

Parcio Groesfan King Arthur – Derbyniwyd llythyr yn dweud fod peiriannydd traffig yn mynd i asesu'r safle

Gwefan – Yn dilyn llythyr gan Richard Ll. Jones yn Eco'r Wyddfa fis diwethaf, gofynnir i unrhyw fudiad o fewn y gymuned sydd angen eu cynnwys ar wefan Cyngor Cymuned gysylltu â'r clerc.

Anwen Davies

Dechreuodd drwy drafod y sefyllfa ariannol o fewn y cyngor, gan ddweud bod amser ymgynghori wedi dod i ben. Bydd y Cyngor yn gweithio drwy yr ymatebion i weld nawr lle yn union fydd y toriadau. O sicrwydd bydd pethau yn cael eu cynnig i'r cynghorau cymuned, efallai fod yna sefyllfa lle gall cynghorau cymuned weld ffordd o wneud rhywbeth mewn ffordd wahanol (effeithlonrwydd).

Bu cryn drafod ar wahanol bethau, ond nodwyd gennym ni fel cyngor er bod yna doriadau, mae gan y trethdalwyr hawl i'r run safon o wasanaeth o hyd. Diolchodd y cadeirydd iddi am ddod atom ac am drafodaeth o newidiadau sydd i ddod.

6. Gohebiaeth a materion eraill

Clwb Bowlio dan do Bethel - Derbyniwyd llythyr cais am nawdd ariannol i gefnogi y clwb. Mae gan y cyngor amser penodol yn yr Hydref pan fyddwn yn derbyn ceisiadau am nawdd. Clerc i ymateb yn tynnu sylw i rheol yma.

Ynni Padarn Peris – Mae'r cynllun yma bellach wedi ei basio gan Gyngor Gwynedd ac mae'r tirfeddianwyr wedi arwyddo'r les. Mae'r cysylltiad i'r grid cenedlaethol wedi ei gadarnhau, a'r contractwyr wedi eu penodi. Gobeithir dechrau ar y gwaith o adeiladu yn mis Mai a chwblhau ym mis Medi.

Bydd y gost o adeiladu'r hydro yn £250,000, a'r gobaith ydi ariannu'r gost o adeiladu trwy werthu cyfranddaliadau a fydd yn agored i bawb. Bydd 1 siâr werth £250 gyda'r mwyafrif at werth £10,000.

Mwyaf bydd gwerth y siariau, yna llai fydd y benthyciad o'r banc, ond yn gobeithio gwerthu digon o siariau i ariannu'r holl prosiect.

Os oes rhywun am wybod mwy, bydd lansiad i werthu cyfranddaliadau yn cymryd lle yn y Mynydd Gwefru, Llanberis ar yr 27ain Chwefror 2016. Diwrnod cau y cynigion fydd Ebrill 30 2016

Cynllunio

Parc Nant y Garth – Newid defnydd sied amaethyddol presennol i ddiwydiant ysgafn ynghyd â chreu iard storio allanol ar gyfer caban symudol.

38 caeau Gleision – Codi lolfa haul cefn.

Gallod Fachwen – Newidiadau i'r tŷ presennol gan gynnwys gosod ffenestr gromen a chreu teras to ar ben lolfa haul.

Rhydd Dir – Codi sied amaethyddol a stabl.

Gwyndy Rhiwen, Deiniolen - Codi estyniad deulawr ac addasiadau yn cynnwys balconi

O gwmpas y Bwrdd

Dywedodd y Clerc, yn drist iawn ei bod wedi derbyn galwad ffôn gan Philip Jones, yn dweud, oherwydd cyflwr presennol ei iechyd, fod yn rhaid iddo ymddiswyddo o fod yn gynghorydd cymunedol ar ardal Dinorwig. Nid oedd yn gweld ei fod yn gwneud tegwch â phobl yr ardal gan na allai bellach fynd o gwmpas yr ardal na chwaith fynychu cyfarfodydd.

Diolch yn fawr iawn i Philip Jones am ei wasanaeth trylwyr dros y blynyddoedd. Roedd yn un oedd yn adnabod yr ardal yn dda ac wedi gweithio dros welliannau i'r ardal.

Byddwn yn awr yn hysbysu y sedd yn wag yn ardal Dinorwig.

Rhiwlas – Yn dilyn llifogydd yn yr ardal, mae adran briffyrdd yn glanhau y gwli ochor y lôn er mwyn i'r dŵr redeg yn fwy rhwydd i'r gwteri. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Dŵr yn anelu at waith fydd yn costio i fyny o 200 mil o welliannau.

Penisarwaun – Baw Ci yn dal yn broblem fawr. Llythyr i Wynedd

Ar y ffordd o Benisarwaun i Fethel, rhwng Neuadd Glasgoed a Ty'n Felin, mae yno gadair esmwyth wedi cael ei lluchio ar ochor y lôn. Llythyr i Wynedd.






ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION IONAWR 2016:
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fawrth, 19eg o Ionawr, 2016 am 7 yr hwyr.
PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding (Cadeirydd), Bethan Holding, Helen Sharp, Trystan Thomas
Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Derek Jones.
YMWELIAD HEDDWAS LLEOL: Gwarchod y Gymdogaeth:
Cafwyd cyflwyniad gan yr heddwas cymunedol lleol, Mike Sambrook, gyda'r bwriad o adfywio Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth, a fu ar un amser yn llwyddiannus iawn. Mae Heddlu'r Gogledd (HG) yn awyddus i gael pentrefi cyfan yn rhan o'r Cynllun unwaith eto ynghyd â chael unigolion i ymuno â Cynllun OWL (gellir cofrestru i dderbyn gwybodaeth gan yr heddlu trwy gyfrwng ebost neu neges testun pan fyddo rhyw drafferthion lleol). Yn yr un modd byddai'r heddlu yn croesawu derbyn gwybodaeth hefyd am unrhyw drosedd neu broblemau ymddygiad.
O dan strwythur newydd mae'r heddlu yn gobeithio cael unigolion [Aelod Gwarchod y Cyhoedd] i fod yn gyfrifol am stryd neu ddwy yn eu cymdogaeth a fyddai'n adrodd wedyn i unigolyn arall [Cydlynydd Stryd] a fyddai yn gyfrifol am ran o bentref gyda'r rheini yn adrodd i un person [Cydlynydd Ardal] a fyddai'n gyfrifol am y pentref cyfan. Byddai'r person hwnnw yn trosglwyddo gwybodaeth i'r Heddlu ac yn perthyn i Grŵp Llywio Penodedig ar gyfer Cydlynwyr Ardal Gwynedd a Môn ac yn cael cefnogaeth gan HG, Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd a Gwarchod y Gymdogaeth.
Efallai y byddai angen rhyw 15 o wirfoddolwyr i weithredu fel Aelod Gwarchod y Cyhoedd, rhyw 4 gwirfoddolwr wedyn i fod yn Gydlynydd Stryd ac un i weithredu fel Cydlynydd Ardal dros Lanberis a Nantperis. Yn Nantperis gallai dau neu dri o bobl fod yn adrodd i un cynrychiolydd pentref a fyddai'n adrodd ymlaen i'r Cydlynydd Ardal a grybwyllwyd uchod.
Diolchwyd i'r heddwas am ei gyflwyniad a phenderfynwyd trafod y mater yn un o gyfarfodydd y dyfodol.
CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 15fed o Ragfyr, 2015 fel rhai cywir
MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Cae Chwarae:
Yr offer wedi cyrraedd ac wedi ei osod.
2. Llwybr Cefn Stryd Newton:
Adroddwyd fod wyneb y llwybr yn dal wedi ei orchuddio â rhywbeth tebyg i gerrig crynion bras a bod rhai ohonynt bellach wedi eu cario oddi yno ac i'w gweld mewn sawl lle. Bydd angen holi Emlyn Baylis a Barry Davies a lwyddwyd i ddarganfod pwy oedd yn gyfrifol.
3. 'Concerned about Glynrhonwy' (CaG):
Cafwyd rhagor o wybodaeth am y cynllun hydro arfaethedig ynghyd â chopiau o DVD oddi wrth y cwmni i'w rhannu i'r aelodau. Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn codi cwestiynau gan fod y mudiad uchod yn gwneud hynny. Y pryder diweddaraf yn ôl eu gwefan oedd fod ffrwydron yn dal yn y chwarel ers dyddiau'r Ail Ryfel Byd. Ym marn un aelod codi bwganod oedd hynny gan i'r chwarel gael ei chlirio yn niwedd y chwech a'r saith degau. Penderfynwyd cadw golwg ar y datblygiadau.
4. Dŵr Cymru:
Yn dilyn yr ymgynghoriad gan Dŵr Cymru ynglŷn â'r cynllun cymunedol ar gyfer y pentref edrychwyd yn fanwl ar y rhestr awgrymiadau. Penderfynwyd cefnogi 'llwybr o gwmpas y llyn' fel y cynllun a fyddai o'r budd mwyaf i'r nifer fwyaf o bobl, yn yr ail safle roddwyd 'trac sglefr-fyrddio' ac yn drydydd 'cysgodfan bws'. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Dŵr Cymru.
5. Cysgodfan Bws:
Penderfynwyd holi CG i weld a ellir gosod cysgodfan bws ym mhen gorllewinol y pentref ger yr Eglwys Babyddol gyferbyn â hen safle'r Banc.
6. Twll yn y Wal:
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Notemachine, y cwmni a wnaeth gais cynllunio am gael gosod peiriant arian a chadw'r arwyddion arno, ar y Stryd Fawr.
Yn y llythyr dywedwyd fod y cwmni'n barod i roi arwyddion dwyieithog yn Llanberis. Er fod y Clerc wedi awgrymu'n garedig y dylai cwmni fel hwn sydd â'i swyddfa yn un o drefi'r deheubarth fod yn paratoi arwyddion dwyieithog lle bynnag y byddai'n lleoli'i beiriannau yng Nghymru. Gwrthod hynny wnaeth y cwmni, gan nodi mai dim ond lle'r oedd cais penodol am arwyddion yn cynnwys y Gymraeg y byddai'n eu gosod.
MATERION ERAILL:
1. Goleuadau:
Ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r lamp yn Llainwen Uchaf a'r brigau coed.
2. Llifogydd:
Mae nifer o broblemau gorlifo wedi dod i'r amlwg ar ôl y cyfnodau eto o law mawr.
a) Llifogydd yn Stryd Ianci. (Yn ôl EB oedd wedi cael gair â'r Clerc roedd na waith ar y gweill i drin y dŵr sy'n dod o'r tir ger Llainwen).
b) Pryder nad oedd dim i atal dŵr rhag dod o Afon Goch ar lif mawr a bygwth bythynnod Glanrafon. Addawodd y Clerc gysylltu â Cartrefi Cymunedol Gwynedd, y perchennog.
c) Er bod nifer o gwterydd yn y pentref wedi eu glanhau roedd rhai yn dal yn llawn dail a phridd a sbwriel.
ch) Soniwyd fod dŵr yn sefyll ar y ffordd rhwng Ynys Wen a giât i safle DMM ac hefyd gyferbyn â Coed y Glyn ger yr arhosfan.
GOHEBIAETH:
1. Llythyrau Diolch:
Llythyrau oddi wrth y cyrff canlynol yn diolch am gyfraniadau o'r Gronfa Mân Gymorthdaliadau: Cymdeithas Undebol Llanberis, Mudiad Meithrin, Steven Williams (ar ôl derbyn nawdd ar gyfer taith cwmni theatr i Batagonia).
2. CG - Cae'r Ddôl:
Cafwyd rhestr oddi wrth Cyngor Gwynedd (CG) o ddigwyddiadau sydd i'w cynnal eleni ar Gae'r Ddôl a'r cyffiniau.
3. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllawiau Cynllunio Drafft:
Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi canllaw ar gyfer Asesiad o Sensitifrwydd a Capasati y Dirwedd, ac ar gael i'w harchwilio ac i ymateb hyd at y 12fed o Chwefror.
4. CG - Holiadur Chwarae:
Holi am fanylion cyfleusterau chwarae yn y pentref.
8 CYNLLUNIO:
1. Cyngor Gwynedd:
• Dymchwel ystafell wydr presennol a chodi ystafell wydr newydd fwy yn ei lle - Tan y Graig, Stryd Yanci, Llanberis - dim gwrthwynebiad.
2. APCE:
Caniatáu:
• Clirio'r peiriannau prosesu presennol ynghyd â'r cyfarpar, gosod contractwr biolegol sy'n cylchdroi a chiosgau cysylltiedig, a chreu llawr caled o fewn yr ardal weithredol bresennol - Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, Nantperis.
PRAESEPT 2016 - 2017:
Cytunwyd yn unfrydol i godi'r praesept £1,000 i roi praesept o £20,000 ar gyfer y flwyddyn i ddod.
LLWYBRAU A'R FYNWENT
a) Y Fynwent:
Adroddwyd bod carreg goffa yn gogwyddo. Mynegwyd pryder bod y Fynwent yn llenwi a dylid ystyried yn fuan beth i'w wneud.
b) Llwybrau:
Soniwyd am drafferthion ar lwybr ger Stryd Olgra. (Gwilym Evans a Bethan Holding i ymchwilio).
Holwyd a fyddai modd cael caniatâd i osod mapiau llwybrau ar un o waliau'r Ganolfan.

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

# Ar ben arall i'r lein

Dyma ni wedi troi blwyddyn arall ac ar drothwy tymor newydd. 3 Mawrth yw'r diwrnod y bydd yn bosib gwlychu pluen am y tro cyntaf yn 2016. Mi fyddaf yn gwneud ymdrech i droi allan rhyw ben o'r diwrnod er gwaetha'r tywydd. Mae'n rhaid dweud nad ydw i wedi cael llawer o hwyl arni ers rhai blynyddoedd bellach ac efallai dyma paham does ond rhyw un neu ddau arall rwy'n disgwyl eu gweld allan mor gynnar yn y flwyddyn. Un o'r rhain yw Clifford Thomas o'r Felinheli, tydi Cliff ddim yn un sydd yn ddatgelu'n rhwydd gyfrinachau'r Seiont, mae yn un o'r rhain sy'n gallu denu rhyw frithyll neu ddau pan mae pawb arall yn waglaw. Mi fydda i'n ceisio tynnu tipyn ar ei wybodaeth yng Nghaban Crawia yn ystod y dyddiau nesaf. Ond ar y llaw arall dwi'n ceisio ei odro o'r wybodaeth yma ers blynyddoedd maith a heb fawr o lwc, dyfal donc bia hi dwi'n meddwl.

Er bod problemau Llyn Padarn a'r gollwng dŵr afreolus o orsaf Hydro Dinorwig yn cael effaith niweidiol ar y Seiont, ac wedi cael ers blynyddoedd lawer bellach, mae rhyw lygedyn bach o oleuni i'w weld ym myd y brithyll brown, a hynny ar wastadoedd Stablau. At diwedd tymor 2015 roeddwn yn derbyn nifer o adroddiadau fod y pysgod hyfryd yma i'w gweld ar gynnydd. Efallai mai dyma fydd fy stondin ar ddiwrnod agoriadol y tymor.

Ar 20ed Mawrth fe ddaw dydd agoriadol tymor y llynnoedd, gyda phroblemau Padarn yn dal efo ni mae'r sgotwrs cynnar wedi troi eu bryd at Cwellyn a Nantlle, ond cofiwch canol Ebrill yw'r amser i ddechrau ar Nantlle, gyda Cwellyn yn dilyn at ddechrau Mai. Ar 1af Ebrill cawn weld Dywarchen yn agor ei ddrws - dyma'r lle bydd prysurdeb oherwydd y stocio a'r dynfa sydd at 'sgota brithyll yr enfys. Bydd y stocio cyntaf yn cymryd lle yn ystod wythnos olaf Mawrth er mwyn i'r pysgod gael cynefino rhyw ychydig. Bydd stocio wedyn yn fisol at ddiwedd Medi. Eleni bydd nifer dda o frithyll mwy na'r arfer yn cael eu cyflwyno i'r llyn fel rhan o gynllun y clwb i besgi rhyw 200 yn Neorfa Crawia. Bydd rhain oddeutu 3-4 pwys yn un.

I'r rhai sydd yn ffansi diwrnod o sgota a ddim yn aelodau mae tocynnau dyddiol i'w cael yn y Cwellyn Arms, Rhyd Ddu. Mae tocyn tymor yn dipyn gwell bargen gan fod tocyn dydd yn £20. Cofiwch os bydd y diwrnod yn llonydd a niwlog efallai daw cyfle i gael cip ar un neu ddau o'r Cyfryw Rai - ond cofiwch mae hyn yn dod gyda chost ychwanegol!

Yn ystod Mai 2015 fe gynhaliwyd diwrnod o hyfforddi 'sgota a saethu ar dir gwesty'r Seiont Manor, Llanrug. Dyma fu'r diwrnod agored prysuraf yn ardal yr Eco llynedd - heblaw'r dyddiau rhedeg a beicio ac ati fu yn Llanberis. Ond, wrth gwrs, diwrnod y gymdeithas oedd wedi ei anelu yn uniongyrchol i roi cyfle i drigolion y fro brofi'r ddwy grefft. Roedd y trefniadau'n bosib drwy gymorth Cyngor Gwynedd, yn anffodus nid oes hwb ar gael gan y cyngor eleni. 'Rydym yn ceisio ffynonellau eraill er mwyn cael dilyniant a dal diddordeb. Os bydd yn bosib codi'r arian yna bydd diwrnod yn cael ei drefnu yn ystod gwylia'r Sulgwyn.

'Rydym wedi derbyn cadarnhad oddi wrth Llys yr Apêl bod ein achos yn ymwneud â llygredd Padarn dan ystyriaeth. Mae'n anodd credu fod Llywodraeth Cymru a'r criw yn dal i wadu fod y budreddi sydd wedi bod yn llifo i'n dyfroedd ddim i'w wneud â thrafferthion y torgoch. Mae Dŵr Cymru wedi gwario dros £6 miliwn i uwchraddio sustem garthffos Llanberis. Ysgwn i fuasai'r cwmni yma wedi rhoi ei law yn ei boced i ryddhau'r fath swm heb fod rhywbeth mawr o'i le. Rwy'n deall fod gwaith twnelu gyda rhyw beiriant arbennig ar ddechrau i newid cwrs yr afon yn ardal Llainwen o'r pentref. Mae ein diolchiadau i rai unigolion o'r pentref sydd wedi ychwanegu eu pwysau i ymdrech y gymdeithas i weld y gwaith yma yn dod i rym.

'Rwyf wedi bod, ac yn dal i fod, yn feirniadol o sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â physgodfeydd ein bro. Mae pawb yn ymwybodol o drafferthion y torgoch. Rhan o awgrymiadau'r Gymdeithas i wella'r sefyllfa oedd cynnig i'r corff stocio torgoch bychain i'r Afon Peris yn Nant. Wel mae'n bleser dweud fod hyn wedi ei wireddu gyda 30 o dorgochiaid a rwydwyd o Afon y Bala yn ystod Rhagfyr wedi eu gollwng i'r Peris ger Bont Meibion. Marciau llawn y tro yma CNC. Diolch i Walter Hanks o GNC am luniau o'r fenter.

Fel mater o ddiddordeb, ar 8ed Mawrth am 9.30 y bore ym Mynydd Gwefru Llanberis, bydd yr Arolygaeth Gynllunio yn agor adolygiad rhagarweiniol i gais datblygiad gorsaf hydro Glyn Rhonwy. Bydd y gwrandawiad yn ymestyn i'r 9ed a wedyn 15-16 Mawrth. Dyna bedwar diwrnod yn llai i bysgota'n barod eleni.

Torgoch yn cael eu gollwng yn Nant Peris Rhagfyr 2015.



# Chwaraeon

## RHEDEG MYNYDD




Ras Moelyci yn draddodiadol yw'r ras fynydd gyntaf yn yr ardal hon, a daeth dros gant o redwyr i gystadlu ynddi eleni. Yno hefyd roedd cwmni teledu Rondo yn ei ffilmio ar gyfer rhaglen chwaraeon Clwb ar S4C. Eisoes dangoswyd pigion o'r ras ar y rhaglen honno. Mae'n amlwg hefyd fod tri o geffylau wedi clywed fod siawns iddynt ymddangos ar y teledu, oherwydd yn fuan wedi cychwyn y ras ymunodd y tri efo'r rhedwyr. Ac er gwaethaf ymdrechion glew rhai o'r stiwardiaid, llwyddodd un ceffyl i gyd-redeg a'r cystadleuwyr allan o gaeau fferm Moelyci ac ar y lon gul a arweiniai drwy'r goedwig am yr Allt, Pentir. Erbyn cyrraedd y copa, bu'n rhaid i'r rhedwyr wynebu tua hanner dwsin o ferlod mynydd hefyd, ond nid yw'n ymddangos fod gan y rheini gymaint o ddiddordeb a'u cefndryd islaw!

Rhedwyr (deudroed) lleol ddaeth i'r brig eto eleni, gyda Gareth Hughes a Sarah Ridgway yn ennill ras y dynion a'r merched. Roedd y ddau yn arwain o'r cychwyn, a doedd fawr o gystadleuaeth iddynt. Ond tu ol i Gareth roedd cystadleuaeth dda, gyda Hugh O'Donnell (Llanberis gynt) yn 4ydd, Shaun Davies (Deiniolen) yn 5ed a Sam Green (Llanberis) yn 8fed. Daeth Dylan W. Jones (Deiniolen gynt) yn 10fed ac yn drydydd dros 40 oed, a Phil Jones (Waunfawr) yn ail dros 60 oed. Ali Thomas (Llanberis) oedd y ferch gyntaf dros 50 oed, a Maggie Oliver (Dinorwig) y ferch gyntaf dros 60 oed.

Roedd rhifyn Chwefror o'r "Eco" eisoes wedi mynd i'w argraffu pan gynhaliwyd Hanner Marathon Llwybr Coedwig Coed y Brenin yn Nolgellau. Matt Ward (gynt o Lanrug a Phenisarwaun) oedd y trefnydd, a daeth dros 500 o gystadleuwyr i herio'r elfennau. Rob Samuel (Llanberis) enillodd mewn amser o awr a 25 munud, gyda Dyfed Thomas (Llanrug) yn seithfed mewn awr 34 munud, ac yn ail dros 40 oed. Gwnaeth Shaun Davies (Deiniolen) a Llion Iwan (Waunfawr) yn arbennig o dda i orffen yn yr hanner cant uchaf.

Wythnos cyn i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg daeth llwyddiant i Alun Vaughan (Llanberis gynt) pan enillodd Ras Ffordd 10 milltir y Rhyl mewn 55 munud 45 eiliad, a hynny mewn gwyntoedd cryfion.

Ar yr un diwrnod enillodd Bronwen Jenkinson (Waunfawr) ras y merched yn ras fynydd Ilkley Moor. Cychwyn da iawn felly i redwyr lleol ar ddechrau'r tymor rhedeg mynydd.

Y ras lleol nesaf fydd Ras Bwlch Maegwm ar Fawrth 12fed. Bydd y cofrestru yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, gyda'r ras yn cychwyn am 11.00 y bore.




## Noddwyr i Glwb Peldroed Llanrug

Mae H.A.B.I.T. Pritchard's Martial Arts, sydd wedi ei ganoli yng Nghaernarfon wedi noddi crysau polo newydd ar gyfer chwarewyr Tim 1af CPD Llanrug.

Yn y llun, mae'r rheolwr Mark Jat a'r capten Dylan Owen, yn derbyn y crysau polo gan Gemma Pritchard a Marvin Pritchard o H.A.B.I.T. Pritchard's Martial Arts.

*chwith i'r dde:: Dylan Owen (Capten), Gemma Pritchard (H.A.B.I.T. , Pritchard's Martial Arts), Marvin Pritchard (Pritchard's Martial Arts) a Mark Jat (Rheolwr).*

# Aur, Arian ac Efydd i Anya



Wedi symud i fyny grŵp oedran y tymor hwn dychwelodd sbrintiwr Clwb Trac a Maes Menai, Anya Williams, 13 mlwydd oed, o gystadlu ym Mhencampwriaethau Dan Do Cymru yng Nghaerdydd dros y penwythnos 16-17 Ionawr wedi symud ymlaen i rownd gyn-derfynol y gamp 60m Merched Dan 15 a sicrhau buddugoliaeth yn y ras derfynol 'D' yn y gamp 200m.

Yr wythnos ganlynol rhedodd yr athletwraig o Lanrug yn llawer cryfach i sicrhau amser gorau personol newydd o 8.54 eiliad yng Nghei Connah a hawlio'r teitl 60m Dan Do Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Aeth y athletwraig ifanc ymlaen i gystadlu am fedalau eraill. a sicrhau medal Arian gyda thafliad o 6.30m o'r Shot 3kg, a medal Efydd am ei hymdrech naid hir o 3.90m.

# A Oes Diwedd I'r Dilyw?

Does fawr ddim i'w drafod am ganlyniadau pêl-droed yr ardal gyda'r tywydd gwlyb yn arwain at sawl gohiriad. Yn sicr, mae penbleth yn wynebu y sawl sy'n gorfod adrefnu'r gemau. Yn ddi-os bydd yn amharu ar gyfleon esgyn / disgyn nifer o glybiau. Clywais yn barod am rai yn awgrymu y bydd rhaid i rai clybiau chwarae hyd at dair gêm yr wythnos i ddal i fyny. Mae hyn yn hollol annerbyniol i chwaraewyr sy'n gweithio trwy'r dydd. Mae'r clybiau proffesiynol yn cwyno am ddwy gêm yr wythnos.


Un tîm sydd wedi dioddef ynglŷn â gemau'r gynghrair yw Llanberis. Gan eu bod wedi cael cyn gymaint o gemau cwpan wedi eu gohirio – chwi gofiwch i'r gêm rhyngddynt a'r Bermo gael ei chwarae ar y trydydd Sadwrn – mae'r gemau cynghrair yn pentyrru. A mi yn llunio hyn o lith ar ddiwedd Chwefror , dim ond 12 gêm gynghrair mae Llanberis wedi chwarae. Mae'r tymor wedi cychwyn ers mis Awst! Mae hyn yn gyfystyr â thri mis o benwythnosau heb gêm gynghrair. Mae'n gwestiwn a oes gan y timau garfan digon mawr i ateb y galw. Bydd Llanberis yn gobeithio cael gwell tywydd a churo Llanfairpwll i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cookson, a oedd yng ngafael Llanrug y tymor diwethaf. Glantraeth fydd yn wynebu'r enillwyr.

Caed un fflach o heulwen gyda Llanrug yn trechu Llangefni 2-1. Mae'r Monwysion ymysg y ffefrynnau i esgyn diwedd y tymor.

Yr un yw hanes y Waunfawr. Maent yn dal ymysg ceffylau blaen Cynghrair Gwynedd er iddynt golli y gêm bwysig draw yn y Felinheli. Duw a ŵyr beth fydd yn digwydd os bydd y fath adrefnu y tymor nesaf, gan fod Clwb Criced Caernarfon hefyd yn defnyddio 'dros yr Abar' i chwarae eu gemau cartref yng Nghynghrair Criced Gogledd Cymru. Duw a ŵyr beth fydd cyflwr y maes i faesu arno!

Pêl-droed yn dod yn gêm yr haf? Dwi ddim yn meddwl, ond yn sicr gwelaf y tymor yn ymestyn o Awst i Fai. Rwy'n nodi bod nifer y timau yn y 'Summer Leagues' yn gostwng. Ai am fod y chwaraewyr yn laru ar y tymor hir, ac eisiau toriad?

# Clwb Bowlio Bethel



Braf cael cofnodi bod rhifau aelodaeth Clwb Bowlio Bethel ar gynnydd. Mae'r selogion yn cyfarfod yn y Neuadd Goffa am 1pm ar bnawn Mercher. Bydd Idris Rees yr ysgrifennydd yn barod iawn ei groeso i unrhyw un sydd am fentro ymgymryd a'r gamp - yn enwedig ymysg y to ifanc. I ateb y galw bu'r clwb yn ffodus i dderbyn trydydd mat yn ddiweddar drwy garedigrwydd Clwb Cricieth. Os bydd y galw yn dal i gynyddu mae bwriad i drefnu ail sesiwn hyfforddi/ ymarfer yn ystod yr wythnos. Y mae'n fwriad o hyd i ymuno a'r gynghrair lleol o fewn y flwyddyn.

# Gwylio Datblygiad

Ers tymor neu ddau bellach rydym wedi rhoi sylw achlysurol i ddatblygiad y chwaraewr rygbi o Lanrug, Rhun Williams. Erbyn hyn mae Rhun – sy'n chwarae yn safle y cefnwr– yn aelod gwerthfawr o garfan dan 20 Cymru. O ran clwb mae yn denu sylw gyda'i berfformiadau i glwb RGC sydd â chyfle da i ennill dyrchafiad i Uwch Gynghrair Rygbi Cymru eleni. Teg hefyd nodi cyfraniad Clwb Rygbi Caernarfon ble bu yn aelod ers pan oedd o ddim o beth. Mae'n dipyn mwy a chryfach na hynny bellach.

Fe all hwn fod yn dymor pwysig iawn i Rhun a'r tîm dan 20. Ar hyn o bryd maent wedi trechu Iwerddon i ffwrdd a'r Alban ar eu cae 'cartref' ar Barc Eirias, Bae Colwyn. Gobeithio, pan fyddwch yn darllen y golofn hon ,y byddant wedi trechu timau cryfion Ffrainc a Lloegr, ac yn paratoi i wynebu yr Eidal gartref am y Bencampwriaeth – neu efallai y Gamp Lawn.

Mae'r gair 'datblygiad 'yn bwysig bellach. Ym myd rygbi – a phêl-droed, – mae pob tîm o'r oedran dan 15 ymlaen bellach o dan adain unai URC neu GPDC. Yn naturiol mae hyn yn arwain at well paratoi, hyfforddi a chyfleusterau. Y bwriad yw, nid yn unig meithrin a datblygu sgiliau, ond bod yr unigolion talentog yn ymgartrefu ac addasu i awyrgylch unigryw y llwyfan rhyngwladol. Y mae datblygu patrymau chwarae yn holl bwysig.

Ar lefel y bêl-droed cyfeiriodd yr hyfforddwr Osian Roberts yn ddiweddar y buasai chwaraewr ifanc fuasai'n teithio trwy'r carfannau 'oedranol' i'r tîm cyntaf mwy na thebyg wedi chwarae mewn rhyw 50 o gemau rhyngwladol.

Fe gefais y fraint o weld Rhun yn ennill ei gap cyntaf ar lefel dan 20 draw ar faes Donnybrook yn Nulyn. Yr hyn oedd yn ddiddorol oedd bod y gêm yn cael ei chwarae ar faes 4G. Mae hyn yn rhoi hyder i'r chwaraewyr o ran rhedeg ac hefyd i'r cicwyr wrth anelu at y pyst. Y mae hefyd yn rhoi cyfle i chwarae'r gêm ar dempo cyflymach na'r meysydd arferol. O siarad gyda Rhun wedi'r gêm roedd y blinder yn amlwg, oherwydd nid yn unig roedd hi yn gêm gyflym ond hefyd yn gorfforol.

Mae rhywun yn edrych am safon mewn sawl agwedd o chwarae'r cefnwr yn y gêm fodern. Disgwylir bod yr agweddau elfennol o daclo a chlirio'r llinell â chic yno. Agweddau pwysig arall erbyn hyn yw bod yn sicr o dan y cenllysg o giciau uchel wedi eu hanelu i gyfeiriad y cefnwr .Yng ngwlad y Garryowen roedd hyn i'w ddisgwyl, a chafodd Rhun gêm sicr iawn yn yr agweddau yma.

Yr agwedd bwysig arall yw amseru'r mynediad ymysg yr olwyr i gefnogi toriad. Yn y ddwy gêm gyntaf mae Rhun wedi cyfrannu i'r symudiad arweiniodd i sgorio dau gais i'w dîm gyda'i amseriad pwysig. Roedd hyn yn holl bwysig yn sgorio'r cais hwyr tyngedfennol i guro'r Albanwyr.

Roeddwn yn eistedd drws nesaf i Robin, tad Rhun, a'i frawd bach Rhydian draw yn Donnybrook. Roedd y balchder ar wyneb y ddau yn siarad cyfrolau. Braf hefyd eu bod yn bresennol yn hwyrach yn y noson pan gyflwynwyd ei gap i Rhun. Nid oedd mam yno, ond eto roedd hi. Yn amlwg, roedd hi a gweddill y teulu yn gwylio'r gêm gartref ar y teledu. Bob hyn a hyn roedd neges destun yn cyrraedd –"Mae nhw'n sôn am Rhun ar y teledu". Oedd, roedd yn berfformiad da ganddo, ac yn yr un modd ar gae trwm Parc Eirias. Gobeithio ei fod wedi cadw ei le ar gyfer ymweliad y Ffrancwyr.

Rhaid nodi cysylltiad arall â'r fro yn y fuddugoliaeth dros yr Alban. Ciciwyd y pwyntiau allweddol gan Billy, mab Robin Mcbride, ac roedd Diana – nain Brynrefail – yno yn cefnogi. Roedd y wên o falchder yn ymestyn o Ddyffryn Peris i Gwm Gwendraeth.

Cymeraf y cyfle yma i ddymuno yn dda i Robin ar ei ymddeoliad diweddar wedi 'diwrnod da o waith' fel Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug. Bu ei gyfraniad tu fewn a thu allan i furiau'r Ysgol yn amhrisiadwy i gannoedd o blant a chymdeithasau'r fro. Diolch iddo yn bersonol am ei gyfraniad parod at gystadleuaeth Tlws yr Eco am sawl blwyddyn. Mae un peth yn sicr, beth bynnag sydd i ddod i Rhun yn ei yrfa rygbi, fe wnaiff ei dad yn siŵr fod ei draed yn soled ar y ddaear. Gair o gyngor da i gefnwr, buaswn yn tybied. Gobeithio hefyd bod perfformiadau Rhun wedi codi calon ei frawd mawr, Llywelyn, wedi ei law-driniaeth ddiweddar.

Diolch hefyd i Robin am y lluniau o'r Ynys Werdd.

# Taro'r Rhwyd

Dyma 'gyntaf' arbennig i'r Eco. Hyd y gwn i dyma'r cofnod cyntaf i ni ddangos rhywun yn sgorio cenedlaethol gôl, gais neu yma bwynt. Y sgoriwr yw Elain Roberts o Gwm-y-glo a'r achlysur yw'r gem bêl-rwyd Cymru -21 yn erbyn Lloegr draw yn Hatfield ger Llundain. Hwn oedd cap cyntaf Elain yn yr oedran yma. Mae'n amlwg yn chwaraewraig amryddawn gan iddi droi o fod yn ymosodwr ar ddechrau'r gêm a throi'n amddiffynnwr yn y chwarter olaf.

Mae Elain ar ei blwyddyn olaf yng Ngholeg Metropolitan Caerdydd yn astudio cwrs SCRAM. Mae hyn yn ymwneud ag ymdriniaeth ac anafiadau chwaraeon – beth a elwir yn rehab. Mae rhywun yn sylwi cyn gymaint o ferched sydd wedi dilyn y cwrs yma sydd i'w gweld yn y carfanau ymgeledd yn y timau rygbi a phêl-droed erbyn hyn. Ond iddynt gadw draw oddi wrth Mourinhio!

Er diddordeb, rhyw 10 mlynedd yn ôl bellach cofiaf wneud erthygl am Catrin Evison o Gaeathro. Roedd hi'n dilyn yr un cwrs. Wedi graddio roedd Catrin yn gwneud y gwaith gyda Chlwb rygbi Sale, ger Manceinion. Erbyn hyn mae hi yn ffisiotherapydd mewn ysbyty fawr yn Adelaide, Awstralia. Cynrychiolodd Catrin Gymru mewn rygbi a chriced.

Bu Elain yn ymwneud â'r gêm o ddyddiau Ysgol Gynradd Llanrug. Da gweld un arall gyda medal enillwyr Cystadleuaeth yr Eco yn cyrraedd y lefel ryngwladol! Yna Brynrefail ac ambell dîm yng Nghynghrair Bel-rwyd Penygroes. Cynghrair sy'n datblygu'n feithrinfa dda i chwaraewyr yn Arfon.

Bu'n aelod o dîm Gogledd-Orllewin Cymru tra yn yr Ysgol ac ennill cap -17. Yn wir, cafodd y fraint o gapteinio Cymru -17 yn erbyn Lloegr draw yn Sheffield.

Ar wahân i sgiliau cynhenid, mae angen dycnwch, hyder ac ymroddiad i gyrraedd y lefel uchaf. Mae hyn yn sicr yn wir am Elain.

Tra yn ei blwyddyn olaf yn Brynrefail cafodd anaf drwg iawn tra'n chwarae'r gêm. Rhwygodd gewyn yr ACL yn ei choes – anaf sy'n creu ofn ar sawl chwaraewr pêl-droed proffesiynol. Bu rhaid cael llawdriniaeth a ffisiotherapi am chwe mis. Er hynny, llwyddodd Elain i gwblhau ei chwrs Lefel A gan gynnwys Addysg Gorfforol.

Yna cryfhau – yn gorfforol a meddyliol – a chyrraedd y lefel uchel yma o berfformiad. Tipyn o gamp.

Yr her i Elain r?an fydd ymladd am le yn nhîm hŷn Cymru. Yr abwyd, wrth gwrs, fydd cael perfformio yng Ngemau'r Gymanwlad ,neu hyd yn oed y Gemau Olympaidd.

Dymunwn yn dda iddi ar ac oddi ar y cwrt. Y flwyddyn nesaf bydd yn dilyn cwrs MSc draw ym Mhrifysgol Caerloyw. Pwy ŵyr pa ddrysau fydd yn agor wedyn.

# Pêl-droed Merched dan 19 Cymru yn erbyn Gogledd Iwerddon

Yn ddiweddar roedd Lois Regan, sydd yn dod o Ddeiniolen a bellach yn mynychu Coleg Y Cymoedd, Ystrad Mynach, yn rhan o garfan dan 19 oed merched Cymru mewn gêm gyfeillgar yn Merthyr a fu'n fuddugol yn erbyn Gogledd Iwerddon o 3-2

Gogledd Iwerddon aeth ar y blaen wedi 11 munud o chwarae, ond daeth genod Cymru yn ôl wedi 16 munud, gyda Lois yn cymryd 'free kick' ardderchog yn syth i mewn i gornel uchaf y gol!

Roedd genod Cymru yn chwarae'n gryf gyda gôl-geidwad Gogledd Iwerddon yn achub cynnig am y gôl, a'r sgôr ar ddiwedd yr hanner cyntaf yn gyfartal, 1-1.

Dechreuodd yr ail hanner gyda chawod o law trwm, a'r gwynt cynyddol yn helpu'r ymwelwyr, ond wedi 49 munud aeth Cymru ar y blaen gyda Lois yn cadw'r bêl o dan reolaeth i lawr yr adain chwith a'i chicio ar draws amddiffynwyr Iwerddon ac, unwaith eto, i mewn i gornel y rhwyd - gyda ychydig o help o 'deflection'.

Ymestyn eu sgôr wnaeth Cymru wedi 56 munud gyda Lily Stevens yn sgorio y drydedd gôl. Er i Iwerddon ddod nôl a sgorio un gôl arall cyn diwedd y gêm, Cymru oedd y tîm cryfaf ar y diwrnod.

# Chwaraeon








## Tair Camp - Tri Cap

*Elain*
*Rhun*
*Lois*

